# Llais Ogwan

Papur Bro Dyffryn Ogwen

Rhifyn 524 · **Hydref 2021** · 50c


# Llyfr Mawr y Plant yn 90 oed

**Mae Wil Cwac Cwac, Siôn Blewyn Coch a Martha Plu Chwithig yn 90 oed, ond mae’n ymddangos eu bod mor ifanc ag erioed.**

Ond beth ydi apêl oesol Llyfr Mawr y Plant a sut daeth y straeon a’r cymeriadau i fodolaeth yn y lle cyntaf?

‘Ni bu erioed y fath luniau, na’r fath hanesion!’

Dyna sut y disgrifiwyd Llyfr Mawr y Plant 1 pan y’i cyhoeddwyd yn 1931. Argraffwyd 6,000 o gopïau a bu’n llwyddiant ysgubol.


Yn eu rhagair i’r gyfrol mae’r awduron Jennie Thomas a J.O. Williams yn cyflwyno’r gyfrol i blant Cymru.

Mewn rhifyn arbennig o raglen Stiwdio ar BBC Radio Cymru fis Medi roedd Dr John Llywelyn Williams, mab y diweddar J.O. Williams, yn trafod sut daeth y gyfrol gyntaf i fodolaeth.

“Roedd Jennie Thomas wedi dod yn athrawes ifanc o Lerpwl i Fethesda,” meddai. “Mi oedd hi’n un o ddisgyblion J. Glyn Davies ac mi oedd hi’n cartrefu gyda fy mam pan oedd fy mam hefyd yn athrawes ifanc ym Methesda; y ddwy yn ffrindiau mawr efo’i gilydd.

“Mi ddo’th fy nhad ar y sîn a dechrau canlyn mam, a wedyn wrth gwrs, dod i ‘nabod Jennie Thomas. Mi ddo’th y criw yma at ei gilydd; J.J. Williams yn brifathro, J. Glyn Davies gyda’i ganeuon, a wedyn mi oedd R. Williams Parry yn y criw hefyd. Os edrychwch chi yn rhagair Llyfr Mawr y Plant 1, mi welwch chi gymaint roedd ‘nhad a Jennie yn diolch i R. Williams Parry a J. Glyn Davies.

“Y bwriad oedd creu llyfr oedd yn cyfateb i’r Bumper Books oedd yn bod yn Saesneg yn yr un cyfnod. A dyma fel ddo’th Peter Fraser, yr arlunydd i mewn oherwydd roedd o’n enwog iawn fel arlunydd i’r Bumper Books ac felly roedd ‘nhad a Jennie wedi gweld ei waith o a mi wnaethon nhw gysylltu efo fo.






“Dyn o ynysoedd yr Alban oedd o a dwi’m yn gwbod os oedd o’n siarad Gaeleg ai peidio ond mi oedd ganddo fo gydymdeimlad mawr iawn efo’r project a mi oedd o’n fodlon iddyn nhw gael y llunia’ am bris llawer llai na’r farchnad.

“Roedd y lluniau’n eithriadol o bwysig i’r gyfrol. Mi roedd dyluniad y llyfr i fod yn eithriadol bwysig, yn yr un ffordd â’r teip. Sylwch chi fod teip Wil Cwac Cwac yn fwy o lawer nac ydi Siôn Blewyn Coch oherwydd stori i blant bach ydi Wil Cwac Cwac, stori i blant ychydig yn hynach ydi Siôn Blewyn Coch.”

Golygodd cyhoeddi Llyfr Mawr y Plant yn 1931, a’r cyfrolau eraill i ddilyn yn 1939, 1949 a 1975, fod gweledigaeth Jennie Thomas wedi ei wireddu, ond mae’n debyg mai J.O. Williams oedd piau’r dychymyg. Meddai John:

“Efallai nad ydi o’n iawn i mi ddweud ond doedd gan Jennie ddim dychymyg eithriadol. Roedd hi’n ddynas arbennig iawn a mae gen i barch eithriadol iddi, ond ‘nhad sgwennodd bron i dri chwarter y llyfr. Mae lot o bethau Jennie ac eithrio Wil Cwac Cwac yn gyfieithiadau o’r Saesneg ac wedyn fy nhad oedd yn gyfrifol am y cerddi ac am Siôn Blewyn Coch.”



**(Diolch i Cymru Fyw a Gwasg Carreg Gwalch am y lluniau)**

## Panel Golygyddol

**Ieuan Wyn**
(Ffôn 600297)
ieuanwyn01@gmail.com

**Lowri Roberts**
(Ffôn 07815 093955)
l.roberts11@btinternet.com

**Neville Hughes**
(Ffôn 600853)
nev_hughes@btinternet.com

**Dewi A Morgan**
(Ffôn 602440)
dewimorgan@live.co.uk

**Trystan Pritchard**
(Ffôn 07402 373444)
trystanrp1@gmail.com

**Walter a Menai Williams**
(Ffôn 601167)
waltermenai@yahoo.co.uk

**Rhodri Llŷr Evans**
(Ffôn 07713 865452)
Rhodri.llyr.evans@gmail.com

**Owain Evans**
(Ffôn 07588 636259)
owain.evans1@gmail.com

**Carwyn Meredydd**
(Ffôn 07867 536102)
carwynian@hotmail.com

**Rhys Llwyd**
(Ffôn 01248 601606)
rmll42@live.co.uk

## Swyddogion

**CADEIRYDD**:
**Dewi A Morgan**, Park Villa, Lôn Newydd Coetmor, Bethesda, Gwynedd LL57 3DT (Ffôn 602440) dewimorgan@live.co.uk

**TREFNYDD HYSBYSEBION**:
**Neville Hughes**, 14 Pant, Bethesda LL57 3PA (Ffôn 600853) nev_hughes@btinternet.com

**YSGRIFENNYDD**:
**Gareth Llwyd**, Talgarnedd, 3 Sgwâr Buddug, Bethesda LL57 3AH (Ffôn 601415) garethllwyd197@btinternet.com

**TRYSORYDD**:
**Godfrey Northam**, 4 Llwyn Bedw, Rachub, Llanllechid LL57 3EZ (Ffôn 600872) godfreydnortham@hotmail.co.uk

**Y LLAIS DRWY'R POST**:
**Owen G Jones**, 1 Erw Las, Bethesda, Gwynedd LL57 3NN (Ffôn 600184) post@llaisogwan.com


## Golygyddion

Golygwyd rhifyn y mis hwn gan **Rhys Llwyd**.

Y golygydd ym mis **Tachwedd** fydd **Owain Evans,** 5 Rallt Isaf, Gerlan, Bethesda, Gwynedd, LL57 3TD. 07588 636259
E-bost: owain.evans1@gmail.com

Pob deunydd i law erbyn **dydd Sadwrn, 30 Hydref** os gwelwch yn dda.
**BYDD Y RHIFYN HWN YN CAEL EI ARGRAFFU**
Casglu a dosbarthu
**Nos Iau, 18 Tachwedd,**
yng Nghanolfan Cefnfaes am 6.45

**DALIER SYLW:** NID OES GWARANT Y BYDD UNRHYW DDEUNYDD FYDD YN CYRRAEDD AR ÔL Y DYDDIAD CAU YN CAEL EI GYNNWYS.

## Clwb Cyfeillion Llais Ogwan

**Gwobrau Hydref**

| | | |
|---|---|---|
| £30.00 | (192) | Carys Dafydd, Braichmelyn. |
| £20.00 | (149) | Minnie H. Lewis, Porthaethwy. |
| £10.00 | (69) | Joe Hughes, Ffordd Ffrydlas, Bethesda. |
| £5.00 | (93) | Karen Aston, Erw Las, Bethesda. |

(Os am ymuno, cysylltwch â **Neville Hughes** – 600853)

Ariennir yn Rhannol gan Lywodraeth Cymru

CYMRAEG

**www.llaisogwan.com**
**Trydar: @Llais_Ogwan**

## Llyfrgell Gymunedol Dyffryn Ogwen

**Ymweld â ni. Mae'r llyfrgell ar agor ar gyfer pori heb apwyntiad.**

Cysylltwch â ni i drefnu apwyntiad i ddefnyddio'r cyfrifiaduron neu i neilltuo sesiwn astudio/defnyddio eich laptop eich hun os gwelwch yn dda.
**Ffôn:** (01248) 600737
**E-bost:** LLBethesda@gwynedd.llyw.cymru
**Cyfeiriad:** Llyfrgell Gymunedol Dyffryn Ogwen, Ffordd Coetmor, Bethesda, LL57 3DP
**Cofiwch!**
- rhaid gwisgo gorchudd wyneb yn y llyfrgell a defnyddio'r diheintydd dwylo fydd ar gael
- bydd angen rhoi eich manylion cyswllt er mwyn gallu Olrhain Cysylltiadau.

**Oriau agor**
**Dydd Llun** 2:00 pm - 6:00 pm
**Dydd Mawrth** 10:00 am - 12:00 pm
**Dydd Mercher** Ar gau
**Dydd Iau** 10:00 am – 12:00pm (Amser stori yn unig); 2:00 pm – 5:00pm
**Dydd Gwener** 2:00pm - 5:00pm
**Dydd Sadwrn** 10:00 am - 12:00 pm

## Rhoddion i'r Llais

| | |
|---|---|
| **£20.00** | Er cof am Llewelyn Morris Jones (Llew, Talybont) a fyddai'n dathlu ei benblwydd yn 96 oed ar 18 Hydref. Oddi wrth Enfys a'r teulu i gyd. |
| **£10.00** | Di-enw, Tregarth. |
| **£4.00** | Teulu 5 Glan Ffrydlas, Bethesda. |
| **£20.00** | Teulu Maes Caradog, Nant Ffrancon. |
| **£6.50** | Siân Ashton, Abercaseg, Bethesda. |
| **£2.50** | Y Parchedig Sara Roberts, Rhos y Nant, Bethesda. |
| **£20.00** | Brenda Wyn Jones, Pen y Bronnydd, Tregarth. |
| **£10.00** | Joe Hughes, Ffordd Ffrydlas, Bethesda. |
| **£20.00** | Einir M. Young, Bro Emrys, Talybont. |
| **£25.00** | Er cof annwyl am Simon oddi wrth Tina Roberts, Maes y Garnedd, a'r teulu. |

**Diolch yn fawr**

## Llais Ogwan ar CD

Gellir cael copi trwy gysylltu â **Gwyn** yn swyddfa'r deillion, Bangor (01248 353604). Os gwyddoch am rywun sy'n cael trafferth â'i olwg, ac a hoffai dderbyn copi o'r Llais ar CD bob mis, cysylltwch ag un o'r canlynol:
Gareth Llwyd – 601415
Neville Hughes – 600853

## Archebu trwy'r post

**Gwledydd Prydain** – £22
**Ewrop** – £30
**Gweddill y Byd** – £40
Owen G. Jones, 1 Erw Las, Bethesda, Gwynedd LL57 3NN
post@llaisogwan.com
01248 600184

# Datganiad Dyffryn Gwyrdd

**Enwi'r Ceir Trydan**

Gyda fflyd ceir trydan Partneriaeth Ogwen bellach yn cynnwys dau gerbyd ac un arall ar y ffordd penderfynwyd rhedeg cystadleuaeth ar gyfer bathu enwau ar gyfer y cerbydau. 'Roedd y disgyblion wedi cael y dasg greadigol o feddwl am enwau ac 'roedd safon y gwaith yn uchel iawn – felly cur pen i aelodau tim y Dyffryn Gwyrdd a Sian Gwenllian AS oedd dewis tri allan o 30!

Gyda tri cherbyd gwahanol angen eu bedyddio bu tipyn o bendroni. Mae yna gerbyd cymunedol 7 sedd addas i gadair olwyn (Nissan Evalia), fan ddanfon (Nissan Tekna) a char teulu (MG5 Estate). Wedi pendroni tipyn penderfynwyd ar y canlynol;

Y Car Trydan cymunedol - Efan

Y Fan ddanfon – Tryfan

Y Car Teulu – Carnedd

Mae'r cerbydau hyn ar gael i'w llogi er mwyn cynyddu'r ymwybyddiaeth o gerbydau trydan a darbwyllo trigolion y dyffryn am fuddion ceir trydan.

Rydym yn ddiolchgar iawn i ddisgyblion ac athrawon Ysgol Llanllechid am eu cefnogaeth frwd, ac i Sian Gwenllian AS am ei chefnogaeth barod. Rydym hefyd yn ddiolchgar iawn I'n ariannwyr, cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol, Hwb i'r Hinsawdd a chronfa Llywodraeth Cymru a'r Gymdithas Drafnidiaeth Gymunedol.

Diolch i Bro Ogwen 360




# Achub Organ

## (gan William Owen Bangor)



David Davies, ac organydd o fri a fagwyd yn y Douglas Arms, sydd wedi trefnu i achub organ un o eglwysi Bangor. Pan glywodd fod Eglwys Dewi Sant, Glanadda wedi cau a bod yr organ yn dal yno aeth ati i'w geisio gofalu na fyddai'n difetha rhagor. Erbyn hyn mae hi wedi symud oddi yno ac ar ei ffordd i gapel Prifysgol Caerwysg, Exeter.

Bu David yn dysgu chwarae'r organ yn Eglwys Dewi Sant a daeth yn organydd meistrolgar. Pan welodd athro o Goleg Eton ef yn cynnal noson ar organ Eglwys Llanfairfechan fe'i perswadiodd i ymgeisio am le yn Eton.

Oddi yno aeth i Rydychen a bu'n astudio hefyd yng Ngholeg Iâl (Yale) yn America. Ers rhai blynyddoedd mae'n organydd yn Abaty Buckfast, Dyfnaint ac yng Nghapel Coffa Mary Harris, Prifysgol Caerwysg. Bydd y capel hwnnw yn 70 oed yn 2025 a dyna pryd y bydd yn disgwyl y bydd organ Bangor yn barod i'w chyfeilio.

Ar hyn o bryd mae hi'n cael ei hadfer i'w hen ogoniant mewn gweithdy organau yn Henffordd. Tynnwyd hi o'i lle yn Eglwys Dewi Sant y mis diwethaf. Roedd wedi bod yno ers ei gosod yn 1906. Mae'n cymryd amser i'w thrwsio a'r coed sychu. Mae Eglwys Glanadda wedi cau ers saith mlynedd.

David fydd y cyntaf i gael tynnu'r nodau ohoni pan fydd wedi ei hailosod, a hynny am y tro cyntaf ers iddo fod yn ei chwarae pan oedd yn fachgen ifanc.

Bu'n dweud yr hanes ar y rhaglen Dros Ginio, BBC Radio Cymru ym mis Medi.

Parhad o'r dudalen flaen...

## Seilio Siôn Blewyn Coch ar lwynog go iawn



Os oedd gan J.O. Williams ddychymyg oedd yn cydio ym mydoedd plentyn, roedd o hefyd yn datblygu straeon a chymeriadau allan o brofiadau go iawn. Yn wir, roedd cymeriad Siôn Blewyn Coch wedi ei seilio ar lwynog anwes J.O Williams, sef Mic y llwynog. Meddai John, ei fab:

"Oedd Siôn Blewyn Coch yn anifail anwes i 'nhad. Mic y llwynog oedd ei enw fo.

"Oedd Mic yn byw mewn cwt yn nhop yr ardd a mi fydda' 'nhad yn dod â fo mewn i'r tŷ gyda'r nos, a mi fydda Mic yn sleifio i mewn tu cefn i'r gadar; 'mond i chi beidio cymryd sylw ohono fo mi ddoi allan, ac yn y diwadd mi ddoi i ista ar lin fy nhad, ac os oedd gan fy nhad rhyw dda-da yn gongl ei geg, mi fydda fo'n dŵad a chymryd y da-da o'i geg o wyddoch chi.




Tybed yn faint o gartrefi yn y dyffryn mae yna gopïau o Lyfr Mawr y Plant erbyn heddiw?

L. Sturrs
a'i feibion
sefydlwyd yn 1965
ADEILADWYR
Hen Iard Stesion,
Ffordd y Stesion, Bethesda
Ffôn: 600953
lsturrs@googlemail.com

# AR Y TELEDU

Ym Mis Medi cafodd yr ardal dipyn o sylw ar ddwy raglen dda a difyr ar S4C, sef Cynefin a Sgwrs dan y lloer. Neil Williams, neu Neil Maffia fel mae'n cael ei adnabod, oedd gwestai Elin Fflur ac roedd mwy nag un wyneb cyfarwydd ar y rhaglen Cynefin. Os na welsoch y rhaglenni mae modd dal i fyny â nhw.



**Annwyl Olygydd,**
Hoffwn, drwy gyfrwng llythyrau y "Llais" ddatgan fy ngwerthfawrogiad o raglen "Cynefin" S4C y noson o'r blaen..
I mi a adawodd y Dyffryn dros drigain mlynedd y ol , roedd y rhaglen yn wych . Yr oedd y cydbwysedd rhwng natur, hanes a phobl yr ardal yn ardderchog. Roeddwn yn falch o glywed y cyfranwyr, fwy nac unwaith, yn talu teyrnged i gynhesrwydd yr "how gets", does neb tebyg iddynt!!
Dysgais lawer am y lle wrth wylio a sylweddolais o'r newydd y fraint o gael fy magu yng nghymuned glos Mynyddd Llandygai. Gyda llawer o ddiolch i chwi a'ch cyd-weithwyr am gynhyrchu cylchgrawn mor ddifyr sawl gwaith yn y flwyddyn a hefyd eich calendar hyfryd Mae'r cyfan yn codi hiraeth arnaf!

Cofion cynnes o Wrecsam
**Eirlys Owen** (gynt Oliver)

***THEATR BARA CAWS***
***yn cyflwyno BYD DAN EIRA***
***GAN SIÔN EIRIAN***

Mae tair cenhedlaeth y ddrama gyfoes, dreiddgar hon, yn cael trafferth i gyfathrebu â'i gilydd, ond wrth iddynt or-gyffwrdd ar adegau gwelwn y cariad angerddol sy'n eu clymu â'i gilydd, a gallu dihybsydd dynoliaeth i ymdopi hyd yn oed â'r sefyllfaoedd mwyaf trasig.
Hanes tair cenhedlaeth o ferched o'r un teulu sydd yma, wedi ei adrodd drwy stori bersonol un o'r protestwyr aeth ar orymdaith *Women for Life on Earth* o Gymru i Gomin Greenham ym mis Medi 1981.
Mae'r hynaf, GLESNI am sicrhau byd gwell, mwy heddychlon i'w merch gan wneud ei safiad ffeministaidd ei hun:

***"A creu'r symbol pwysica' i genhedleth o fenwod."***

Mae KATE, ei merch, yn fam sengl ac yn darlithio ar rai o lenorion Saesneg canol yr 20G, llenorion oedd â ffydd:

***"...bod 'u gwaith nhw yn agor gorwelion. Bod byd newydd yn ca'l 'i eni. A'r fydwraig o'dd geirie a syniade."***

Ond heddiw mae hanes, a hyd yn oed creadigrwydd, yn cael ei ail-ddiffinio a'i gwestiynnu, a hithau'n gorfod wynebu canlyniadau'r dewisiadau mae wedi ei wneud.
Mae'r ieuengaf, CADI, yn perthyn i'r genhedlaeth-Z ac yn boddi dan bwysau'r byd rhithiol mae'n gymaint rhan ohono:

***"Byd o screens. A llunie o' fi yn bob man. Ond wy'n teimlo'n invisible. Mam? Mamgu? Be' ddigwyddodd?"***

***Byd Dan Eira*** yw'r ddrama olaf i Siôn Eirian ei chyflwyno i Bara Caws. Ni fu cyfle i ni gael y sgrysiau a'r trafodaethau difyr arferol, ond diolchwn am y berthynas ffrwythlon fu rhyngom dros y ddegawd diwethaf, ac am ffydd Erica yn ein huchelgais i wireddu ei weledigaeth ysgytwol o berthnasol.

AM FWY O WYBODAETH CYSYLLTWCH Â LINDA BROWN: 01248 601526 (dwi'n gweithio o adref) neu ffon symudol: 07740637648




**Londis Bethesda**

☎ 01248 605566
Archfarchnad hwylus
a Swyddfa Bost
Gwasanaeth personol
gyda'r pwyslais ar y cwsmer
Tocynnau Loteri, cardiau a biliau trydan a nwy
Ar agor 7.00 y bore tan 10.00 yr hwyr
7 diwrnod yr wythnos

**DAFYDD CADWALADR**
**Cynhyrchion Coedlannol**
Coed Tân - Llwythi bach a mawr
Ysglodion pren i'r ardd
Ffensio a thorri coed
Asiant system gwresogi trwy losgi coed
**01248 605207**

**Gareth Williams**
**Trefnydd Angladdau**
Crud yr Awel
1 Ffordd Garneddwen
Bethesda
600763 neu 07708 008051
GWASANAETH DYDD A NOS

# Diolch yn fawr, Derfel

Mae Derfel Roberts wedi gorfod rhoi'r gorau i fod yn un o olygyddion *Llais Ogwan*, a hynny oherwydd anhwylder sy'n effeithio ar ei olwg. Bydd yn golled sicr i'n papur bro oherwydd ei gyfraniad mewn sawl cyfeiriad ynghyd â'i ymrwymiad i sicrhau dyfodol i'r cyhoeddiad.

Derfel oedd golygydd cyntaf y papur pan y'i sefydlwyd ym 1974, a pharhaodd yn y swydd yn ddi-dor tan 1982. Fel golygydd, ef oedd yn bennaf gyfrifol bryd hynny am bob agwedd ar gynhyrchu'r papur am yr wyth mlynedd cyntaf allweddol, a bu cydweithio pwrpasol a hynod effeithiol rhwng aelodau'r tîm cychwynnol. Roedd paratoi'r rhifynnau yn wahanol iawn i'r hyn ydyw heddiw, ac roedd hynny, gan gynnwys cynnal cyfarfodydd pwyllgor, yn digwydd ar aelwyd Derfel a Menna. Gyda'r holl orchwylion bu cyfraniad Menna yn anhepgor.

Dyma Derfel ei hun yn sôn am ddyddiau cynnar y papur – sylwadau a gyhoeddwyd yn 2014 pan oedd y papur yn dathlu ei ben blwydd yn 40 oed:

*"Rhaid cofio fod bron y cyfan o'r deunydd a ymddangosai yn*



*rhifynnau cynnar Llais Ogwan wedi cael ei ysgrifennu â llaw i gychwyn. Yn y dyddiau hynny roedd y newyddion a'r erthyglau yn cael eu teipio ar deipadur trydan. I greu'r penawdau a'r is-benawdau byddem yn defnyddio llythrennau 'Letraset', cyn glynu'r erthyglau a'r hanesion fesul colofn ar ddarn mawr o gardfwrdd gwyn. Er mwyn cael lluniau yn y papur roedd yn rhaid gadael bylchau wedi eu gorchuddio gyda defnydd tebyg i ffilm goch lle byddai'r lluniau'n ymddangos. Wedi gwneud hynny, aed â'r darnau o gardfwrdd yn y car i'r Dolydd ac i Benygroes ger Caernafon i gael eu copïo cyn eu hargraffu ar beiriant 'Offset Litho'. Yna, wynebid y daith yn ôl i'r un cyfeiriad eto rai dyddiau'n ddiweddarach i gyrchu'r papur er mwyn ei roi wrth ei gilydd yn Nyffryn Ogwen. Yn y dyddiau cynnar hynny mentrwyd argraffu oddeutu 1,100 o gopïau ac fe werthwyd pob copi mewn dim o amser.*

*"Wrth gwrs, roedd oriau o lafur wedi eu treulio cyn hynny yn hel straeon, yn ffonio hwn a'r llall am ddeunydd, yn cyfweld personau a chymeriadau ac yn hel hysbysebion er mwyn cyfrannu at y costau cynhyrchu. Roedd oriau lawer o lafur pellach yn ein disgwyl wrth rannu'r papur o amgylch cartrefi'r fro a chynnal cyfarfodydd i benderfynu ar y camau nesaf.*

*"Teg yw nodi fod yr holl weithgarwch hwn gan griw bach o bobl wedi cael ei wneud yn gwbl ddi-dal a hynny ynghanol prysurdeb gwneud ein gorchwylion a'n swyddi dyddiol gan gynnwys magu teuluoedd ifanc. O edrych yn ôl mae'n syndod iddo gael ei gyflawni o gwbl. Mae un peth yn sicr, doedd y criw a fu wrthi ddim yn brin o frwdfrydedd nac o egni."*

Mae'r tasgau a ddisgrifir uchod gan Derfel yn dangos maint yr ymdrech a chymaint yr ymroddiad oedd ei angen yn y gwaith o baratoi pob rhifyn ar gyfer ei argraffu. Hynny a sicrhaodd lwyddiant y fenter, ac o ganlyniad i'r brwdfrydedd, buan iawn y bu i'r papur fwrw gwreiddiau yn y gymdeithas. Derbyniodd groeso gwresog.

Yn ddiweddarach, bu Derfel yn cyfrannu fel aelod o'r Bwrdd Golygyddol ac roedd hi'n dda derbyn ei farn a'i gyngor oherwydd ei brofiad. Gydol y blynyddoedd, cafwyd ganddo erthyglau diddorol a difyr ar wahanol bynciau, ac am sawl blwyddyn bellach, fel y gwyddoch, mae wedi bod yn cynnal colofn yn rheolaidd ar weithgarwch Côr Meibion y Penrhyn, gan adrodd ar ei raglen a'i berfformiadau, cyflwyno aelodau unigol yn ogystal â rhoi inni beth o hanes y côr, yn achlysuron arbennig a theithiau tramor.

Diolch iti, Derfel, am dy gyfraniad gwerthfawr dros gyfnod maith. Pob dymuniad da i ti yn y dyfodol.

**Swyddogion a Bwrdd Golygyddol *Llais Ogwan***

# Trystan yn ymuno Pwyllgor Cymru'r Loteri

Mae Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol wedi croesawu'r gŵr o Fethesda yn lysgennad i ddarparu grantiau yng Nghymru

Yn ddiweddar, mae Trystan Pritchard wedi ymuno â Phwyllgor Cymru Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol.

Mae Trystan, sy'n byw ym Methesda, yn Brif Swyddog Gweithredol Hosbis Dewi Sant. Mae hefyd yn Aelod o Fwrdd Gofal Cymdeithasol Cymru ac mae eisoes wedi cadeirio Pwyllgor Cymru ar gyfer Cyngor ar Bopeth Cymru.

Fe'i benodwd i Bwyllgor y Loteri ar yr un adeg â Gwenllian Lansdown Davies, Prif Swyddog Gweithredol Mudiad Meithrin.

Fel aelod o'r pwyllgor, bydd yn goruchwylio'r broses o wneud grantiau yng Nghymru ar adeg pan fo'r Gronfa'n parhau i gefnogi pobl a chymunedau yr effeithir arnynt fwyaf gan COVID-19 – gan adeiladu ar a chryfhau'r cysylltiadau, y sefydliadau a'r gwydnwch sy'n galluogi cymunedau i ffynnu.

Wrth ymuno â Chronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol, dywedodd Trystan: "Mae Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol yn bwysicach nag erioed o ran helpu cymunedau yng Nghymru i ddatblygu mentrau newydd, ymateb i heriau newydd a helpu i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau.

"Rwy'n edrych ymlaen at gyfrannu at y gwaith hwn a gobeithio y gallaf helpu i sicrhau bod y prosiectau a'r manteision rhagorol a ddarperir gan y gronfa yn parhau yn ystod y cyfnod ansicr hwn."



Dywedodd Dr Simone Lowthe-Thomas, Cadeirydd Pwyllgor Cymru: "Rwy'n falch o groesawu Trystan a Gwenllian i Bwyllgor Cymru Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol. Maent yn dod â chyfoeth o brofiad o'r trydydd sector a'r sector gwirfoddol yng Nghymru, yn enwedig ym maes iechyd, addysg a chydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant. Bydd eu harbenigedd yn ein gadael mewn sefyllfa well fyth i gael arian y Loteri Genedlaethol i gymunedau ledled Cymru."

Y llynedd dosbarthwyd £31 miliwn mewn 850 o grantiau ledled y wlad, diolch i arian a godwyd gan chwaraewyr y Loteri Genedlaethol.

# Marchnad Ogwen

Bydd dwy Farchnad yn ystod mis Tachwedd - bore Sadwrn, Tachwedd 13eg o 9.30 - 1.00 a Marchnad nos Fercher, Tachwedd 24ain o 5.00 - 8.00. (Dyddiad Marchnad Rhagfyr yw bore Sadwrn, 11eg. o 9.30 - 1.00). Dyna eich Siopa 'Dolig wedi ei sortio!

Rydan ni yn ffodus iawn i gael dwy Stondin newydd yn y Farchnad. Dwy o genod Pesda yn cynhyrchu yn lleol a gwerthu i chi bobl lleol. Dyma un o brif amcanion y Farchnad - sef cefnogi ein cymuned leol ni. 'Printiau Hardd' yw un dan ofal Llinos Williams. Mae Llinos yn gwerthu dillad wedi eu personoli i'ch siwtio chi. Y Stondin arall yw 'Cegin Karen' dan ofal Karen Aston. Mae Karen yn creu bwydydd crwst - sef pastai, rholiau selsig ac ati. Croeso mawr i'r ddwy ohonoch.

Oherwydd absenoldeb un stondin dros dro, bydd Eglwys Sant Tegai yn gallu cynnal Stondin Elusen ym Marchnad Tachwedd 13eg.

Edrychwn ymlaen i'ch croesawu - mae cefnogi eich cymuned leol mor bwysig ac erioed!

Manylion llawn ar ein gwefan **www.marchnadogwen.co.uk**

Marchnad Ogwen

Tachwedd 13eg
9.30am - 1.00pm

Tachwedd 24ain
5.00pm - 8.00pm

Rhagfyr 11eg
9.30am - 1.00pm

Neuadd Ogwen

Bwydydd, Crefftau, Lleol

www.marchnadogwen.co.uk
Facebook

## Eglwys Sant Tegai, Llandygai

**Adferiad Buan**

Gyrrwn ein dymuniadau gorau i bawb sydd yn gwella o salwch neu yn disgwyl triniaeth yn yr ysbyty yn cynnwys Liz Jones, Pat Jones, Sylvia Humphreys a John Bagnall. Da clywed fod William Taylor saer maen gwaith atgyweiro yn yr eglwys yn gwella yn raddol ar ôl triniaeth dwys.

**Diolchiadau**

Mae Alan Radcliffe wedi gwirfoddoli unwaith eto i dorri'r llwybrau ym mynwent yr eglwys gan ddefnyddio peiriant torri gwair wedi ei roi er defnydd yr eglwys gan Liz Jones. Torrir gweddill y fynwent yn rheolaidd gan ein garddwr proffesiynol, Sion Roberts. Mae Raymond wedi bod yn brysur yn trwsio cliciad y giât. Diolch i'r pedwar am eu cymorth i gadw tu allan i'r eglwys yn daclus. Mae'r wardeniaid yn datgan eu diolch hefyd i aelodau Pwyllgor Adeiladu yr eglwys am fynychu'r cyfarfodydd cynllunio ar y safle ac ar Zoom.

Diolch yn fawr hefyd i Martin Brown ac aelodau y Gymdeithas Canu Clychau am lanhau a thwtio y clochdŷ yn barod i gael ailgychwyn yr ymarferion nos Iau. Maent hefyd wedi sicrhau diogelwch y rhaffau a›r clychau. Yn ystod y clo, daeth cwmni Jones & Whitehead draw i ddiweddaru'r system trydan yn y tŵr. Erys yr eglwys ar gau ar gyfer gwasanaethau ond o leiaf bydd un darn o'r adeilad yn weithredol.



Clochyddion St Tegai yn ymarfer ar y 6 cloch am y tro cyntaf ers Mawrth 2020

**Diolchgarwch am y Cynhaeaf**

Cynhaliwyd gwasanaethau Diolchgarwch y Cynhaeaf yn eglwysi eraill Bro Ogwen yn ddiweddar a manteisiodd sawl aelod o St Tegai ar y cyfle i fynychu addoliad yn y dalgylch.

Mae swyddogion yr eglwys yn gwerthfawrogi'r cyfraniadau ariannol diweddar i St Tegai ar gyfer Diolchgarwch.

**Gwasanaethau Sant Tegai Llandygai yn ystod y gwaith atgyweirio**

Yn ystod cyfnod y coronafirws a'r atgyweirio mae aelodau'r gynulleidfa wedi cadw mewn cysylltiad clos. Mae Warden y Ficer yn gyrru deunydd addoli yr Archddiacon yn wythnosol drwy ebost. Erys Eglwys St Tegai ar gau hyd nes bydd y gwaith atgyweirio Rhan 1 gwerth £60,000 wedi ei gwblhau. Am fanylion gwasanaethau yn eglwysi Bro Ogwen, rhaid cysylltu gydag wardeniaid Glanogwen, Pentir, Tregarth, Mynydd Llandygai a St Cross Talybont. Diolch i'r Archddiacon Mary Stallard am yrru'r myfyrdodau wythnosol ar lein.

**Manylion Cyswllt**

Tra mae eglwysi Bro Ogwen yn disgwyl am apwyntiad Ficer newydd, rhaid cysylltu â'r Archddiacon, Yr Hybarch Mary Stallard, Llandudno 01492 876624, marystallard@churchinwales.org.uk ynglŷn ag unrhyw fater yn ymwneud â'r eglwys.

# Plaid Lafur Dyffryn Ogwen

Cynhaliwyd cyfarfod o Blaid Lafur Arfon trwy ZOOM ar ddechrau Mis Medi, gyda chynrychiolaeth o'r gangen. Trafodwyd ffiniau newydd arfaethedig seddau San Steffan ac anfonwyd cynigion i gynhadleddau'r blaid.

Yng nghanol y mis, cynhaliwyd cyfarfod rhithiol y gangen , gan dderbyn adroddiad am Lywodraeth Cymru (e.e. mwy o arian i leihau sgil effaith Covid19 ac y byddai 100 mwy o blismyn cefnogol), Cyngor Gwynedd (e.e. newidiadau yn y canolfannau iaith, rheolau newydd ar gyfer cŵn ar draethau) a chyngor Bethesda (e.e. cymeradwyaeth Maes Parcio Gerlan ac arian at Carnifal Bethesda).

Cynhelir cyfarfod nesaf y gangen ar y drydedd Nos Fercher yn Mis Tachwedd (yr 17eg)

## Ysgol Llandygai

**Croeso'n ôl**

Croeso mawr i blant a theuluoedd hen a newydd Ysgol Llandygai ar ddechrau blwyddyn ysgol newydd. Croeso arbennig hefyd i'n disgyblion Meithrin ac i'r disgyblion hynny sydd wedi trosglwyddo atom ar draws yr ysgol.

Rydym yn hynod o falch o'ch gweld ac yn edrych ymlaen yn arw at flwyddyn arall o gydweithio hapus ac yn eich gweld yn datblygu.



**Gym newydd**

Mae llawer o waith a newid wedi bod yn yr ysgol dros wyliau'r Haf ac mae un o'r rhain ar ein buarth tu allan. Hoffwn ddiolch i'n Gymdeithas Rhieni ac Athrawon am eu cyfraniad tuag at gym allanol newydd ar gyfer yr ysgol. Mae disgyblion o'r Meithrin hyd at flwyddyn 6 yn elwa ac yn mwynhau ei ddefnyddio.

Diolch yn fawr iawn i chi.

**Prif Ddisgyblion**

Mae disgyblion blwyddyn 6 wedi bod yn brysur yn paratoi eu maniffestos ar gyfer yr etholiadau. Cafodd pob dosbarth gyfle i wylio fideos o'r disgyblion yn cyflwyno cyn mynd ati i bleidleisio.

Hoffwn longyfarch yr holl ymgeiswyr am eu hymdrechion ac i'r canlynol am eu llwyddiant ar gael eu hethol fel ein prif ddisgyblion a dirprwyon eleni; Verity a Poppy fel ein prif ddisgyblion a Marianna a Sonny fel ein dirprwy prif ddisgyblion. Rydym yn falch iawn ohonoch ac yn edrych ymlaen gweld eich syniadau i ddatblygu'r ysgol yn dod yn fyw.



**Penodiadau**

Hoffwn fel ysgol estyn croeso i Mr Jonathan Jones sydd yn ymuno â ni fel athro yn yr adran Iau.

Hefyd estynnwn groeso cynnes i Ms Nerys Roberts a Miss Emily Jones sydd newydd ymuno â ni yn ddiweddar fel cymhorthyddion i gefnogi disgyblion o ddosbarthiadau amrywiol. Gobeithio y byddwch yn hapus iawn yn ein plith.

Maent wedi setlo mewn i fywyd yr ysgol ac yn gaffaeliad mawr i'r tîm. Croeso cynnes atom!

**Diolch**

Hoffwn ddiolch i Tesco Bangor am eu rhodd garedig o flodau a chompost fel rhan o'u prosiect cydweithio cymunedol. Mae'r disgyblion yn edrych ymlaen yn fawr at yr holl blannu.

**Wythnos Beicio i'r ysgol**

Wythnos diwethaf, bu disgyblion yr ysgol yn brysur yn cwblhau gweithgareddau ar deithio llesol ar lawr y dosbarthiadau ynghyd â manteisio ar y cyfle i feicio neu sgwtera i'r ysgol. Bu'r gweithgareddau yn sylfaen i ysbrydoli disgyblion i feddwl am eu teithiau i'r ysgol, i ddeall manteision teithio llesol ac i ystyried achosion ac effeithiau llygredd aer.

Cafwyd llawer o waith a syniadau arbennig gan y disgyblion gyda nifer wedi beicio neu sgwtera i'r ysgol er gwaethaf y tywydd ar brydiau. Da iawn pawb!

**Record Guinness y Byd!**

Newyddion gwych! Cawsom wybod bod yr ysgol wedi cyflawni record Guinness y Byd ar y cyd wrth gymryd rhan yng nghystadleuaeth dylunio stamp y Post Brenhinol nol ym mis Mai. Llongyfarchiadau i'r disgyblion i gyd!








# Pwy Sy'n Cofio Ddoe?

© Dr J. Elwyn Hughes

Dyma ddyrnaid eto o gofnodion a godais o ddyddiaduron David David Evans, Glanrafon, Gerlan, gan gynnwys pytiau eto o'r 1950au fel y nodwyd hwy gan DDE. Ac eithrio'r cofnod cyntaf, dim ond y cofnodion eu hunain, heb unrhyw ychwanegiad gen i, a gynhwysais y tro hwn, gan wahodd darllenwyr *Llais Ogwan* i anfon ataf, naill ai'n uniongyrchol neu drwy law Golygydd y Mis, unrhyw wybodaeth diddorol a pherthnasol a gofiant am y pedwar cofnod isod.

DYDD GWENER, IONAWR 19, 1951:
**Ewart Price, Ystradawel, Bangor Rd., yn marw – 55 oed.**

Agorwyd Ysgol y Sir, Bethesda – yn swyddogol – ym 1895 ond gan nad oedd yr adeilad yn barod mewn pryd, bu'n rhaid i'r staff a'r disgyblion dreulio'r flwyddyn gyntaf yn yr adeilad mawr hwnnw a arferai sefyll ym mhen isaf Stryd Fawr, Bethesda, adeilad a fu'n Conservative Club ac yna'n United Club, lle'r oedd byrddau snwcyr a roes oriau o fwyniant i ddynion yr ardal, gan gynnwys neb llai na'r Prifardd Robert Williams Parry! Pan chwalwyd yr hen adeilad yn ystod chwartrer olaf y ganrif ddiwethaf, codwyd stryd fach o dai ar y safle ac fe'i galwyd 'Yr Hen Aelwyd'. Erys cof hyd heddiw am y caffi, oedd yn rhan o'r adeilad gwreiddiol, yn enw'r allt serth, Allt Caffi, sy'n codi o'r A5 hyd at Fryn Coetmor ac yn wynebu Ysgol Dyffryn Ogwen.

Prifathro cyntaf yr Ysgol Sir oedd D. J. Williams, brodor o Gaerffili, ac ar ei gyfer ef y codwyd Neuadd Wen, y tŷ a saif hyd heddiw rhwng yr Ysgol a stad Erw Las. Ymddeolodd DJW yn 1933 ac olynwyd ef gan ŵr arall o Dde Cymru, o Rydaman, sef E. Ewart Price, a gododd gartref newydd iddo'i hun a'i briod, a'u merch, Gwen, ar Ffordd Bangor. Tua diwedd y 1950au, bu â rhan yn y trafodaethau i uno Ysgol y Sir ac Ysgol y Cefnfaes yn un sefydliad a ddaeth ymhen dim yn ysgol gyfun dan yr enw Ysgol Dyffryn Ogwen. Gwaetha'r modd, wedi cyfnod o waeledd a'i llethodd at ddiwedd ei oes, bu farw Ewart Price ganol Ionawr 1951 – ryw bythefnos ar ôl dechrau tymor y gwanwyn yn yr ysgol newydd, a oedd erbyn hynny yng ngofal ei olynydd, sef Ronald Pardoe, brodor eto o Dde Cymru, o Gwm Bach, ger Aberdâr.

Ceir rhagor o gefndir a hanes YDO yn *Canmlwyddiant Ysgol Dyffryn Ogwen – 1895-1995*, 266 tudalen, a gyhoeddwyd gan Y Ganolfan Astudiaethau Iaith, Llangefni, ym 1995.

DYDD SUL, AWST 8, 1952:
**Siop Mrs Foster, Carneddi, yn mynd ar dân.**

DYDD IAU, HYDREF 10, 1952:
**Tân mawr yn siediau'r Felin Fawr. Colled o filoedd o bunnau ac ni ŵyr neb sut na phryd y dechreuodd.**

DYDD IAU, MEDI 9, 1953:
**Agor Ysgol newydd Bodfeurig.**

*I'w barhau*

Eisiau Gwneud Gwahaniaeth yn eich Cymuned?
mudiad meithrin
Mae Cylchoedd Meithrin yn eich ardal yn edrych am wirfoddolwyr!




Pam Gwirfoddoli?
- Gwneud gwahaniaeth i fywydau pobl eraill yn y gymuned
- Cefnogi'r iaith ac addysg Gymraeg
- Gwella'ch CV – gall gwirfoddoli arwain at gyfleoedd gwaith neu newid gyrfa
- Datblygu sgiliau newydd a gwybodaeth
- Defnyddio'ch sgiliau proffesiynol er lles eraill
- Bod yn rhan o dîm
- Magu hunan hyder

Mae dros 450 o Gylchoedd Meithrin ar draws Cymru ac maent yn cael eu rheoli gan bwyllgorau rheoli gwirfoddol yn y gymuned. Mae hyfforddiant a chefnogaeth i wirfoddolwyr ar y pwyllgor ar gael gan Mudiad Meithrin (y mudiad ymbarél i Gylchoedd Meithrin). Mae Cylchoedd Meithrin yn darparu gofal ac addysg i blant bach 2-5 oed.

Diddordeb?
Cysylltwch gyda Angharad Griffiths
Ffôn: 07967 181326 E-bost: angharad_griffiths@yahoo.co.uk
#MeithrinMiliwn www.meithrin.cymru/i-bwyllgorau

HYWEL WILLIAMS
AELOD SENEDDOL DROS ARFON



CYSYLLTWCH:
01286 672076
70 Stryd Fawr, Bangor
hywel.williams.mp@parliament.uk
YMA I BOBOL DYFFRYN OGWEN AC ARFON

SIÂN GWENLLIAN
AELOD O SENEDD CYMRU DROS ARFON



CYSYLLTWCH:
01286 672076
70 Stryd Fawr, Bangor
sian.gwenllian@senedd.cymru
YMA I BOBOL DYFFRYN OGWEN AC ARFON

## Gair neu ddau - John Pritchard

# Y PUM MIL

Mae yna bethau na wnaf byth eu deall. Mae elfen ac atom yn gyfan gwbl y tu hwnt i'm dirnadaeth. Mae'r un peth yn wir am sglodion micro a chrombil cyfrifiadur. Wedi gwylio ambell raglen deledu am ffatrïoedd, dirgelwch llwyr i mi ydi gwneuthuriad peiriannau cymhleth o bob math. Ac erbyn hyn, rhaid ychwanegu at y rhestr feddylfryd Llywodraeth Geidwadol San Steffan.

Un rheswm amlwg dros brinder gyrwyr lori yng ngwledydd Prydain ar hyn o bryd yw'r ffaith bod miloedd o yrwyr o wledydd Ewrop a arferai weithio yma wedi dychwelyd i'w gwledydd eu hunain yn sgil Brexit, a olygai nad oedd hawl na chroeso iddyn nhw a llu o weithwyr eraill aros yma. Ond doedd angen 'i ni gael ein gwlad yn ôl'? Ond doedd yna ormod o dramorwyr yn cymryd ein swyddi ac yn peryglu ein ffordd o fyw? Dyna ddadleuai pleidwyr Brexit, yn cynnwys mwyafrif Ceidwadwyr San Steffan. Ond bellach, a hithau'n gryn argyfwng arnom, mae Llywodraeth San Steffan wedi penderfynu y caiff 5,000 o yrwyr o'r Cyfandir ddod yma i weithio am dri mis rhwng hyn a Noswyl Nadolig.

Wedi cau'r drws yn glep yn eu hwynebau mae'r Llywodraeth yn disgwyl i 5,000 o yrwyr ddod nôl am ei bod yn gyfyng arnom ni. 'Dowch nôl, da chi, rhag i'n ceir *ni* fod yn brin o betrol, rhag i'n siopau *ni* fod yn wag, rhag i'n Nadolig *ni* gael ei ddifetha. Dowch nôl; da ni'ch angen chi! Ond dim ond am dri mis, cofiwch! Dim ond tra bydd ein hargyfwng ni'n parhau!' Pa fath o bobl sy'n meddwl felly? Pa fath o bobl sy'n credu y dylai pawb arall ruthro i'w helpu nhw, er iddyn nhw drin y bobl hynny'n ddigon gwael ychydig cyn hynny? Aelodau'r Llywodraeth hon, yn amlwg.

Mor wahanol yr agwedd meddwl y sonia'r Testament Newydd amdani, a grynhoir yn berffaith yng nghyfeiriad Iesu Grist ato'i hun fel 'Mab y Dyn, na ddaeth i gael ei wasanaethu ond i wasanaethu, ac i roi ei einioes yn bridwerth dros lawer' (Mathew 20:28). Nid pethau i'w defnyddio er ein lles ni ein hunain yw pobl; nid pethau i'w derbyn pan ydynt o fantais i ni a'u gwrthod pan nad oes mwyach eu hangen arnom. Nid felly yr edrychai Iesu ar bobl eraill. Nid dod i'r byd gan ddisgwyl i bawb arall weini arno fo a wnaeth. I'r gwrthwyneb; dod a wnaeth i weini ar eraill, fel cyfaill a meddyg ac athro. Nid beth fedrai eraill ei wneud iddo fo oedd yn cyfrif, ond beth fedrai o ei wneud drostyn nhw.

Mae'n amlwg nad yw'r Llywodraeth Geidwadol bresennol yn gweld dim o'i le mewn defnyddio pobl pan yw o fantais iddi hi wneud hynny. Wedi cau'r drws yn glep yn wyneb miloedd o weithwyr o Ewrop mae'n disgwyl i rai ohonynt ruthro nôl yma cyn i bawb ddechrau gweld bai arni hi am y picil yr ydym ynddo. Mae pobl yn haeddu mwy o barch na hynny. Ond gwyliwn rhag i ninnau mewn unrhyw ffordd neu unrhyw le – yn y gwaith, yn y gymdogaeth, yn yr eglwys neu o fewn y teulu – ymdebygu i'r Llywodraeth hon trwy wneud pobl yn bethau i'w defnyddio a'u hanwybyddu yn ôl ein ffansi a'n hangen. Mae pobl a luniwyd ar ddelw Duw yn fwy gwerthfawr o lawer na hynny.

## Plaid Cymru - Dyffryn Ogwen

Cawn gyfle y mis yma i gael golwg ar ambell i bwnc y mae ein Haelod Senedd Cymru, Siân Gwenllian yn ymdinrin â hwy ymysg llawer eraill gyda'r llywodraeth. Un o'r pynciau llosg y dyddiau yma ydyw y sefyllfa dai haf a diffyg cartrefi am brisiau rhesymol sydd ar gael i bobl leol. Mae'r llywodraeth wedi trefnu ymgynghoriad ond dywedodd Siân Gwenllian nad oedd yn hapus gyda'r amser mae'n ei gymeryd yn enwedig a hithau mor argyfyngus yn rhannau o'i hetholaeth.

Croesawodd y newyddion da bod y llywodraeth wedi cyhoeddi bod ysgol feddygaeth lawn i Ogledd Cymru i'w sefydlu, wedi ei chanoli ym Mangor . Bu Plaid Cymru a Siân Gwenllian yn enwedig ar flaen y gâd yn y frwydr er mwyn ei sefydlu. Mae tystiolaeth bod llawer o feddygon yn aros yn yr ardal y bu iddynt hyfforddi ynddi, felly gall fod yn newyddion da yn y dyfodol i'r meddygfeydd yn ein hetholaeth sy'n ei chael yn anodd iawn i gael meddygon.

Daeth newyddion yn ddiweddar bod rhan o Barc Cegin ger Llandygai i'w werthu. Gofynodd ein AS os oedd cyhoeddiad i'w gwneud bod hyn yn newyddion da ac y byddai mwy o sylw yn cael ei roi i'r safle sydd wedi sefyll ers ugain mlynedd heb greu dim un swydd.

Cofiwch gysylltu gydag ein cynghorwyr sirol a chymunedol os ydych gydag unrhyw beth y gallant fod o gymorth i chi.

MODURDY FFRYDLAS
Profion M.O.T.
Perchennog
A. Ll. Williams
Stryd Fawr, Bethesda
♦ PROFION M.O.T. ♦
GWASANAETH ♦ ATGYWEIRIO
♦TEIARS A BATRIS♦
GWASANAETH TORRI I LAWR
NEU DDAMWAIN
☎ 600723
Ffacs: 605068

Elwyn Jones & Co
hefyd yn masnachu fel
Parry Davies Clwyd-Jones & Lloyd LLP
- Cyfreithwyr -
123 Stryd Fawr
Bangor
Gwynedd
(01248) 370224
*Ar gyfer eich holl anghenion cyfreithiol*
*Gwasanaeth dwyieithog personol a chyfeillgar*
*Swyddfeydd eraill:*
*Llangefni (01248) 723106*
*Porthaethwy (01248) 719517*
*Benllech (01248) 852782*
*Caernarfon (01248) 673616*
*Pwllheli (01758) 703000*

JOHN ROBERTS

Paentiwr
Papurwr
Teilsiwr
Symudol: 07747 628650
Ffôn: 01248 600995

post@llaisogwan.com

## Glasinfryn a Chaerhun

**Cydymdeimlo**
Ar ôl gwaeledd hir bu farw Allan Wynne Jones, Bwthyn y Waen, 2 Waen Wen (gynt o Fethesda) ar 18 Awst yn Ysbyty Gwynedd. Er y cyfnod hir y bu Allan yn sal yr oedd yn hynod ffraeth a hwyliog ei gwaethaf ei waeledd. Bu Allan fyw yn Waen Wen ers dros ddeugain mlynedd a bu hefyd yn weithgar efo Canolfan Glasinfryn gan fod yn Gadeirydd y Pwyllgor am gyfnod. Cydymdeimlir a'i briod Eleri a'i ddau fab Jonathan, sy'n byw yn Perth Awstralia a Martin sy'n byw yn Bermuda, hefyd ei wirion a'i wyresau a'r teulu oll yn eu tristwch a'u hiraeth.

Ar 28 Awst, yn Ysbyty Gwynedd bu farw Hilary Basterfield, Merddyn Gwyn, Waen Wen. Symudodd hi a'i gŵr i fyw I Waen Wen ychydig flynyddoedd yn ôl. Cydymdeimlir â'i phriod Peter a'i mherch Jamie a'r teulu yn Nhyn y Lôn Tregarth yn eu profedigaeth.

**Cefn Gwlad**
I'r sawl sy'n mwynhau gwylio rhaglen Cefn Gwlad, braf oedd gweld y rhaglen gyntaf yn y gyfres newydd yn sôn am deulu Jane Roberts, Pennant, Ysbyty Ifan ac fel y mae hi a'i gŵr Idris wedi magu pedair o genod a hwythau yn eu tro wedi ymwneud â ffermio. Y mae Jane yn ferch i'r diweddar Victor a Muriel Pritchard gynt o fferm Glasinfryn ac yn chwaer i Mair Pen y Bryn, Waen Wen

**Canolfan Glasinfryn**
Bydd rhai o weithgareddau y Ganolfan yn ail ddechrau ym mis Medi, wedi cyfnod hir y Covid. Mae Ioga yn dechrau ar 6 Medi am 11 y bore nes 12.30., a mae'r Grŵp Arlunio ar ddydd Gwenar am 10yb tan 12.30yp. os am fwy o fanylion ynghylch a'r dosbarthiadau neu logi y Ganolfan cysylltwch â Mair Griffiths 01248352966

## Rachub a Llanllechid

**Emlyn Williams**, Pont Llan, Llanllechid, Bangor, LL57 3LE
(07887624459) henbarc13@gmail.com




Cynhaliwyd te prynhawn llwyddiannus ar ddechrau Mis Medi yng ngardd Keilly Tugwell Williams (Lôn Groes), oherwydd ei llawdriniaeth yn ddiweddar. Dymuna Keilly a Michael ddiolch i'r holl bobl a chwmnïau lleol am y gwobrau raffl a'r rhoddion at y diwrnod ac i bawb am ddod a phrynu raffl a rhoi rhoddion. Diolch yn fawr hefyd am yr holl gardiau anrhegion, negeseuon a galwada ffôn a dderbyniodd.

Cynhaliwyd bore coffi awyr agored llwyddiannus yng Nghapel Carmel ar Fedi'r 4ydd ac Ysgol Sul awyr agored ar y 5ed. Oherwydd Covid-19, ni chynhaliwyd sawl gweithgaredd dan do yn yr ysgoldy ond cynhelir oedfa bob yn ail Nos Sul am 5 y.h., gan ddechrau ar Hydref y 10ed a phob pythefnos wedyn. Hoffai aelodau'r capel ddiolch i Margaret Bryn am flynyddoedd o waith clodwiw fel trysorydd ( o dan amgylchiadau anodd yn ddiweddar), gyda Gerallt Hughes yn cymryd ei lle yn awr.

Dymunwn yn dda i Huw Jones a Kieran Thomas (Llwyn Bedw) yn eu swyddi newydd.

Uchod gwelir lun o Keilly a Michael yn rhoi siec o £885 i Ysbyty Walton ar ôl cynnal diwrnod o panad a cacan a noson caws a gwin.

# Merched y Streic



Tra roedd y rhifyn yma o'r Llais yn cael ei baratoi bu perfformiad gan Criw Crawia o "Merched Bethesda" yn Neuadd Ogwen. Dyma ymateb rhai ar y cyfryngau cymdeithasol -

*Bendigedig Llongyfarchiadau mawr.*

*Llongyfarchiadau Angharad a'r actorion i gyd … gwych iawn! Pawb di mwynhau.*

*Sioe wych. Da iawn bawb a diolch i titha dros y plant Angharad xxx*

*Cynhyrchiad gwych - wedi mwynhau yn fawr - bendigedig fod y plant a phobol ifanc yn cael cyfleoedd fel hyn ym Methesda - diolch enfawr i Angharad Llwyd xxx*



# Cynefin a Chymuned Dyffryn Ogwen



Ar benwythnos y 17eg o Fedi, cafwyd gwledd o ddarlithoedd, trafodaethau a theithiau cerdded yn dathlu Cynefin a Chymuned Dyffryn Ogwen yn Neuadd Ogwen, Bethesda a'r cyffiniau. Trefnwyd y penwythnos gan Bartneriaeth Ogwen a chriw o wirfoddolwyr lleol a darparwyd rhaglen eang ei hapêl.

Agorwyd y penwythnos gyda darlith arbennig gan Dr Dafydd Gwyn a daeth oddeutu 40 o fynychwyr ynghyd i wrando ar ddarlith feistrolgar am hanes a thirwedd y dyffryn. Roedd y dydd Sadwrn yn fwrlwm o weithgarwch yn Neuadd Ogwen gyda darlith agoriadol gan y Prifardd Ieuan Wyn yn agoriad ysbrydoledig ac athrylithgar i ddiwrnod llawn dop o hanes a diwylliant.

Cafwyd ystod eang o ddarlithoedd i ddilyn yn cynnwys hanes amaethyddiaeth yr ardal gan Dei Fôn – darlith hwyliog a llawn gwybodaeth yn edrych ar ddatblygiad amaethyddiaeth yn y Dyffryn ar hyd yr oesoedd. Cafwyd darlith lenyddol am Garadog Pritchard gan Menna Baines o Brifysgol Bangor gyda nifer o'r gynulleidfa yn hel atgofion am ymweliadau â chartref Caradog a Mati yn Llundain.

Dan gadeiryddiaeth Rebecca Hardy Griffith, cafwyd trafodaeth fywiog gyda 4 artist amryddawn – Iwan Gwyn Parry, Sian Owen, Anna Pritchard a Darren Hughes gyda'r pedwar yn tynnu eu ysbrydoliaeth o dirwedd a chynefin Dyffryn Ogwen. Yn ogystal â'r sesiynau hyn, cafwyd sgwrs hynod ddiddorol rhwng Eleanor Harding – Curadur yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol yng Nghymru a Lois Jones o Gastell Penrhyn yn trafod trefedigaethu a chaethwasiaeth. Esgorodd hyn ar drafodaeth ehangach ymysg y gynulleidfa am yr angen i'n cymuned drafod y ffaith mai arian caethwasanaeth a fu'n gyfrifol am ariannu mentergarwch chwarelyddol yr Arglwydd Penrhyn yn ogystal â thrafodaeth am yr ymelwa a fu ar weithwyr a theuluoedd lleol. Roedd yn drafodaeth ddifyr a dadlennol tu hwnt.

Sefydlwyd 1969
m.hughes
a'i fab
CONTRACTWYR TOI
Bryn Myfyr, Allt Pen y Bryn, Bethesda
☎ 600633
☎ (symudol) 07702 583765
*Arbenigo mewn gwaith ffelt a pitsio.*
*Hefyd toeau llechi a gwaith yswiriant.*
*Gadewch i ni gynnig pris rhesymol am waith diguro.*




I gloi'r diwrnod, cafwyd cyflwyniad ar fentergarwch cymunedol cyfoes gan Meleri Davies o Bartneriaeth Ogwen gan roi cyfle i'r gynulleidfa ddathlu'r gweithredu cymunedol arloesol sy'n digwydd yn y Dyffryn a thu hwnt.

Yn ogystal â'r darlithoedd a'r sgyrsiau, roedd stondinau gan ambell fudiad a phrosiectau lleol megis Cadwyn Ogwen a Siop Ogwen a trefnwyd tair taith gerdded. Y cyntaf yn daith gerdded 'Sin Roc Pesda' gyda Rhys Mwyn ar y nos Sadwrn ac yna dwy daith gerdded ar y dydd Sul. Tywyswyd un grwp i Barc Meurig yng nghwmni Ben Stammers o'r Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt a crwydrodd y grwp arall o Felin Fawr tua Phont Ogwen gan drafod 'Ynni Ddoe a Heddiw' yng nghwmni John Llywelyn Williams, Idris Lewis, Dafydd Roberts a Gareth Cemlyn Jones. Roedd yr adborth ar y ddwy daith yn gadarnhaol tu hwnt gyda'r mynychwyr yn mwynhau cael blas ar ein cynefin a'n cymuned yn yr awyr agored.

Roedd yr holl benwythnos yn gyfle i ddathlu cyfoeth ein cynefin a chymuned yn lleol a diolch i bawb fentrodd allan er fod y niferoedd Covid-19 ar gynnydd. Daeth dros 100 o bobol i'r holl weithgareddau rhwng nos Wener a phrynhawn Sul. I'r rhai nad oeddent yn gallu bod yn bresennol, mae staff Partneriaeth Ogwen wrthi'n galed yn golygu recordiadau o'r darlithoedd i'w rhannu ar gyfryngau cymdeithasol y Bartneriaeth. Byddwn hefyn yn gosod y recordiadau ar sianel Partneriaeth Ogwen ar www.amam.cymru

Criw bychan fu'n trefnu penwythnos Cynefin a Chymuned eleni a hoffem ddiolch yn fawr i Lowri Williams, Dafydd Roberts, John Llywelyn Williams a Gareth Llwyd am gefnogi Chris Roberts a Meleri Davies oBartneriaeth Ogwen mewn cyfnod byr iawn o amser. Hoffem hefyd ddiolch i'r holl siaradwyr am eu darlithoedd arbennig ac i'r holl noddwyr, yn cynnwys Llais Ogwan, Cymdeithas Hanes Dyffryn Ogwen, John Llywelyn Williams a chronfa LleChi. Y cam nesaf fydd dechrau meddwl am gynnal Gwyl Cynefin a Chymuned yn 2022 a byddai'n wych clywed gan unrhyw un fyddai eisiau bod yn rhan o bwyllgor trefnu gwirfoddol ar gyfer penwythnos arall i ddathlu cynefin a chymuned unigryw ein ardal. I fynegi eich diddordeb neu am fwy o wybodaeth, cysylltwch â chris@ogwen.org.

## Bethesda

**Mary Jones**, maryeds@hotmail.co.uk
(07443 047642)
**Joe Hughes**, Awel y Nant, Ffordd Ffrydlas, Bethesda
(601902)

**Dyweddïo**
Llongyfarchiadau mawr i Diane Hulme, Erw Las a Gwyn Morris o Fangor ar eu dyweddiad ddiwedd mis Medi. Pob dymuniad da I'r ddau ohonoch.

**Diolch**
Dymuna Mary Jones, Erw Las ddiolch unwaith eto am y llu negeseuon, ymholiadau a'r galwadau ffôn a dderbyniodd ac a gododd ei chalon yn arw yn ystod yr anffawd yn ei helbulon pan dorrodd ei choes. Diolch arbennig i Dewi, Helen, Hannah ac Emma, Diane, a Lena, ac i Jack hefyd am ei chlywed ar yr amser tyngedfenol, a phawb arall o'r teulu a ffrindiau. Braf byw yn Erw Las efo cymdogion arbennig.

**Penblwydd Arbennig**
Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau I Mrs Dilys Edwards, Ffordd Coedmor ar achlysur dathlu ei phenblwydd yn 90 oed ar Hydref 1af. Gobeithio eich bod wedi mwynhau y dathlu yn arw.

**Ysbyty**
Cofion cynnes a gwellhad buan at y rhai fu yn yr ysbyty yn ddiweddar. Daeth y canlynol i sylw gohebydd y Llais:- Dyfrig Roberts, Stryd Fawr, Bethesda; Philip Williams, Allt Pen y Bryn, Bethesda; Jessie Jones, Glanafon, Bethesda; Raymond Tomlinson, Erw Las, Bethesda; Joan Parry, Abercaseg, Bethesda; Eurwen Morris, Ffordd Abercaseg, Bethesda.

**Cydymdeimlo**
Anfonwn ein cydymdeimlad at Neville a Len Morgan, Glanffrydlas, yn eu profedigaeth o golli eu chwaer, Violet, yn yr Alban.

**Penblwyddi Arbennig**
Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i ddau a ddathlodd eu penblwydd yn 90 oed yn ddiweddar, sef Mr. Joe Evans, Glanffrydlas ar 19 Medi, a Mrs. Val Amos ar 3 Hydref.

**Cofio Simon**
Mae 25 mlynedd wedi mynd heibio ers pan fu farw Simon Phillip Roberts, (Adwy'r Nant gynt) ar 23 Hydref 1996, ac yntau'n ddim ond 17 mlwydd oed.

Mae'r teulu oll yn cofio'n annwyl amdano ar yr amser arbennig hwn, ac wedi bod â hiraeth dwys yn eu calonnau dros chwarter canrif.



**Marwolaethau**
*Donna Roberts*
Ar Awst 27, yn sydyn yn ei chartref yn Stryd Fawr, Bethesda, bu farw Donna Roberts yn 47 mlwydd oed. Priod annwyl Dyfrig Roberts, merch, chwaer a modryb annwyl i'r teulu oll. 'Roedd Donna yn berson hoffus iawn ac yn barod am sgwrs â phawb. Cynhaliwyd ei hangladd yn amlosgfa Bangor ar ddydd Gwener, 10 Medi, gyda thyrfa o deulu a chyfeillion wedi dod ynghyd i dalu'r gymwynas olaf. Cydymdeimlwn â chwi fel teulu i gyd.

*Philip Maurice Godfrey*
Yn ysbyty Glan Clwyd ar Fedi'r 8fed, bu farw Philip Maurice Godfrey, 7 Tan y Gaer, yn 79 mlwydd oed. Priod annwyl Mrs. Carol Godfrey, tad caredig Gail, Peter a Susan, a thaid hoffus i Fiona, Dylan, Siôn a Rhys. Bu'r gwasanaeth angladdol yn amlosgfa Bangor ddydd Mawrth, 21 Medi, dan arweiniad Y Parchedig Huw John Hughes. Anfonwn ein cydymdeimlad atoch chi Carol, a'r teulu oll.

**Gair o ddiolch**
Dymuna Mrs. Carol Godfrey, 7 Tan y Gaer, a'r teulu, ddiolch yn fawr iawn i aelodau o'r teulu, cyfeillion a chymdogion am bob arwydd o gydymdeimlad a dderbyniwyd ganddynt yn eu profedigaeth o golli priod, tad a thaid annwyl. Diolch am yr holl gardiau, ymweliadau a galwadau ffôn, ac am y rhoddion hael tuag at Ysgol Pendalar. Diolch hefyd am wasanaeth Y Parchedig Huw John Hughes, ac i Gaffi Coed y Brenin am ddarparu'r lluniaeth, a thafarn "Y Bull" am y croeso. Yn olaf, diolch i Mr. Gareth Williams, am yr holl derfniadau.

**Carnifal Bethesda**
Ydy chi yn cofio hwyl y carnifal ym Methesda ers talwm? Pob math o wageni lliwgar yn nadreddu drwy Stryd Fawr y pentra. Yn eu plith roedd un wedi ei haddurno yn arbennig iawn gyda brenhines y carnifal gyda'i gosgordd ysblennydd yn tynnu sylw pawb. Wel, ar Fai 21ain 2022 bydd cyfle unwaith eto i weld ac ymuno yn yr hwyl, oherwydd dyna ddyddiad Carnifal Bethesda ar ei newydd wedd, ond gyda'r un hwyl. Eisoes mae pwyllgor wedi bod wrthi yn brysur yn trefnu a chodi arian ar gyfer y diwrnod mawr. Mae llawer o hwyl a chyfle i gymdeithasu a chael amser da cyn hynny. Cynhaliwyd Ffair Sborion ym maes parcio Plas Ogwen gyda gwahanol stodinau a phawb yn cael hwyl fawr. Diolch i bawb ym Mhlas Ogwen a ymunodd yn yr hwyl. Un o ddigwyddiadau mis Hydref ydy noson bingo yn y Clwb Criced, ond mae'r tocynnau eisoes wedi mynd gan bod cyfyngu ar niferoedd. Os na chawsoch docyn bydd digon o gyfle rhwng rwan a mis Mai. Bydd gweithgareddau yn cael eu trefnu yn fisol o hyn allan tan amser y carnifal. Felly ar ol misoedd o gadw adra a diffyg cymdeithasu dyma gyfle i ni ddod at ein gilydd yn ddiogel ac a fydd yn gwneud daioni mawr i ni fel unigolion a chymdeithas.




Mae ffurflenni ar gael yn ysgolion y dalgylch ac yn Siop Ogwen er mwyn enwebu'r canlynol, Brenin, Brenhines, Tywysog, Tywysoges. Cofiwch bod hyn yn golygu dalgylch Dyffryn Ogwen i gyd. Anfonwch hwy at carnifalbethesda@gmail.com os am fwy o wybodaeth.

Dyma aelodau'r pwyllgor

Cadeirydd Rheinallt Puw Trysoryddion Susan Roberts a Fiona Sherlock Ysgrifennydd Paula Owen

Aelodau Fran D'Amora, Michelle Florence, Iona Robertson ac Anwen Eleri Morgan.



Mae criw hefyd yn trefnu Taith Sion Corn, ond mwy am hynny a'r diweddaraf am y Carnifal y mis nesaf.

## Eglwys Crist, Glanogwen

**Diolch**
Diolch i bawb sydd wedi ymateb i'r cais i gefnogi'r ymgyrch codi arian i'r Apêl. Diolch i Claire am godi dros £1,000 trwy weithgareddau ar y We, ac i'r nifer o gwmniau lleol am gyfrannu at hynny. Mae'r Clwb Cant yn mynd o nerth i nerth, a bydd y gwobrau cyntaf yn cael eu tynnu yn gyhoeddus yng Ngwesty'r Douglas nos Wener, Hydref 29 am 7.30 yr hwyr. Fe gyhoeddir enwau'r enillwyr yn y Llais bob mis. Edrychwn ymlaen at gynnal stondin yn Marchnad Ogwen ar Hydref 9fed, a Noson Bingo yn y Clwb Criced nos Wener, Hydref 15. Mae sawl gweithgaredd arall ar y gweill, ond digon o angen trefnu mwy – fedrwch chi gynnig rhywbeth?

Diolch hefyd i Ian ac Arwel am y gwaith o glirio mynwent Glanogwen – mae tipyn mwy o olau'n cyrraedd tai Maes y Garnedd bellach! Os oes rhywun yn fodlon rhoi awr neu ddwy i roi help, rhowch ganiad i Ian ar 600931 er mwyn trefnu dyddiad cyfleus – braf fyddai cael criw at ei gilydd.

Wrth i'r tir gael ei glirio, daeth i'r amlwg fod rhywrai'n teimlo bod y tir cysegredig hwn yn addas i'w ddefnyddio fel lle i wared sbwriel, gan i sawl bag gael ei luchio dros wal Maes y Garnedd. Gobeithio'n wir na welwn hyn yn parhau yn y dyfodol.

Mae GoFundMe ar gael os oes rhywun am gyfrannu trwy paypal – mynd i safle GoFundMe, clic ar Search a rhoi Glanogwen i mewn, a mae'r gweddill yn hawdd.

Fel arfer, anfonwn ein cofion cynhesaf at bawb yn yr ardal sydd yn unig neu'n sal. Cofiwch roi gwybodath os gwyddoch am rhywun sydd angen gweddi neu ymweliad.

**Manylion Cyswllt**
Tra mae eglwysi Bro Ogwen yn disgwyl am apwyntiad Ficer newydd, rhaid cysylltu â'r Archddiacon, Yr Hybarch Mary Stallard, Llandudno, ar 01492 876624 ynglyn ag unrhyw fater yn ymwneud â'r eglwys, gan gynnwys trefnu priodas neu fedydd.

Cofiwch bod Barbara (600530) a Glenys (600371) ar ben arall y ffon os am gael sgwrs.

## Yr Eglwys Unedig

**Yr Ysgol Sul**
Mae'r Ysgol Sul wedi ailddechrau, ac mae criw o wirfoddolwyr wedi trefnu rhaglen o weithgareddau difyr ar gyfer y plant. Cynhelir yr Ysgol Sul rhwng 10 ac 11.15am bob bore Sul ac eithrio gwyliau'r ysgol.

Bydd cyfle i wrando ar stori, sgwrsio efo'n gilydd, gwneud celf a chrefft, canu a pherfformio, a hyd yn oed cael parti a mynd ar ambell drip - hyn i gyd er mwyn dysgu gwerthoedd pwysig mewn cymdeithas, fel cyfeillgarwch a charedigrwydd tuag at eraill.

Ydych chi'n gwybod am blant fyddai'n mwynhau cymryd rhan yn y gweithgareddau? Byddai'n braf gweld mwy o blant yn ymuno efo ni. Croeso i'r plant ddod draw ryw fore Sul, neu ffoniwch Menna ar 07919 034532, neu anfon neges e-bost i ysgolsuljerusalem@gmail.com i gael mwy o wybodaeth.

**Cofion**
Mae amryw o'n haelodau yn dioddef o anhwylderau ar y funud, ac anfonwn ein cofion cywiraf atoch i gyd, gan obeithio y daw pethau'n well i chwi'n fuan.

**Oedfaon**
Daliwn i gynnal oedfaon yn rheolaidd ar y Sul, yn y capel, a hefyd ar y ffôn, sydd wedi bod yn gyfrwng gwerthfawr i alluogi'r rhai sydd yn gaeth i'w cartrefi i ymuno â ni. Gweler isod y trefniadau ar gyfer yr wythnosau sydd i ddod.

**Cyhoeddiadau:**
Hydref 17: Y Parchedig John Owen, Rhuthun (10)
Hydref 24: Gwasanaeth Diolchgarwch (10.30)
Y Parchedig Olaf Davies (5)
Hydref 31: Y Parchedig Gerallt Lloyd Evans (5)
Tachwedd 7: Mrs Eirlys Williams
Tachwedd 14: Mr Richard Morris Jones

Dyma bennill o emyn o waith DR Griffiths, a fydd, gobeithio, yn gyfrwng i godi calonnau'r rhai ohonoch sydd mewn gwendid ar hyn o bryd:

O Grist, Ffisigwr mawr y byd,
Down atat â'n doluriau i gyd;
Nid oes na haint na chlwy' na chur
Na chilia dan dy ddwylo pur.



Manylion Cyswllt Cynghorwyr Sir Dyffryn Ogwen
Rachub, Carneddi, Gerlan, Braichmelyn
cynghorydd.paulrowlinson@gwynedd.llyw.cymru 01248 605365
Tregarth, Mynydd Llandygái
cynghorydd.dafyddowen@gwynedd.llyw.cymru 01248 605523
Bethesda
cynghorydd.rheinalltpuw@gwynedd.llyw.cymru 07789 742092
Llanllechid, Talybont, Llandygái, Aber, Tyn-y-Maes
cynghorydd.dafyddmeurig@gwynedd.llyw.cymru 07765 400140
@CynghorwyrDyffrynOgwen @PlaidCymruOgwen

STEPHEN JONES TREFNWR ANGLADDAU CYF
PEN Y BRYN BETHESDA
GWASANAETH PERSONOL
PEDAIR AWR AR HUGAIN
CAPEL GORFFWYS
BETHESDA • 01248 600455 • 07770265976
Ebost: stephenjonesfuneraldirectors@outlook.com

JR SGAFFALDIAU Cyf. SCAFFOLDING Ltd.
YR IARD, FFORDD STESION, BETHESDA, GWYNEDD LL57 3NE
ebost: sales@jrscaffolding.co.uk
Ffôn/Ffacs:
01248 601754
07770 568743 (symudol)
CITB

MODURON PANDY Cyf.
MOT Diesel a Chatalydd
Atgyweirio MOT
Gwasanaethu Cerbydau
Cydbwyso Teiars
Batris
Tracio
01248 600619
moduronpandy@yahoo.com
www.moduronpandymotors.co.uk
Tregarth, Bangor, Gwynedd LL57 4AY
UNIPART CAR CARE CENTRE

## Y Gerlan

**Caren Brown**, Cilwern,
14 Ffordd Gerlan, Bethesda, LL57 3ST.
(01248 602509 / 07789 916166)
carenelaine@hotmail.com
**Linda Brown**, 1 Gwernydd, Gerlan, Bethesda, LL57 3TY. (01248 601526)

**Gerlan**

Mae'r ysgol wedi hen gychwyn yn ôl erbyn hyn felly gobeithio bod pawb wedi setlo mewn i'w dosbarthiadau a'u hysgolion newydd.
Nes i anghofio llongyfarch pawb gafodd lwyddiant yn yr aroliadau a derbyn eu canlyniadau dros yr haf.

Mae 'na sawl un wedi serennu ac ambell un wedi penderfynu mynd i astudio'n bellach - pob lwc i chi gyd ar y bennod nesaf beth bynnag fydd hwnnw.

Un sydd yn mynd i ffwrdd i brifysgol tymor yma ydi Dafydd Hedd, Stryd y Ffynnon. Mae Dafydd yn amlwg iawn yn ei gymuned gan ei fod yn canu ac yn trefnu gigs yn yr ardal. Pob lwc iti ym Mryste Dafydd - dwi'n siŵr y cei di amser gwych yno.

**Damwain**

Cafodd Michael Williams Glanrafon ddamwain ddifrifol ym Mrynbella a bu'n rhaid iddo fynd i gael llawdriniaeth yn yr Ysbyty yn Stoke. Gobeithio dy fod yn gwella'n raddol Michael ac y byddwn yn dy weld o gwmpas y pentref eto'n fuan.

**Cydymdeimlo**

Cydymdeimlwn yn fawr iawn efo teulu Siôn Glyn ac Elinor (Ellie) yng Ngwernydd gan i Siôn golli ei dad ar yr 22ain o Fedi. Roedd Owen Glyn Davies (Glyn Garej Tregarth) yn ŵr cariadus i Gwenda ac yn dad arbennig iawn i Iona, Dyfed a Siôn. 'Roedd yn daid annwyl iawn i Ifan, Myfi, Nel, Mali Non, Nanw a Gracie Mai, yn frawd hoffus i Gwyneth a Vivs ac yn dad yng nghyfraith i Ash, Rosy ac Elinor. Colled enfawr i'w holl deulu a'i ffrindiau. Derbynnir rhoddion er cof amdano'n ddiolchgar tuag at Hosbis Dewi Sant ac Urdd Gobaith Cymru (trwy law Gareth Williams 1 Garneddwen, Bethesda 01248 600763). Cofion cynnes iawn atat a'r teulu i gyd Sion.

**Graddio**

Llongyfarchiadau mawr i Math Owen Llwynrhandir, Ciltwllan ar basio ei radd mewn Mathemateg ym Mhrifysgol Gaerdydd. Mae Math wedi penderfynu aros yng Nghaerdydd ac wedi dod o hyd i swydd fel cynorthwyydd cyllid efo cwmni cyfreithiol. Pob lwc iti math!

Llongyfarchiadau i Michele Gould, 12 Gwernydd ar ennill gradd B.Sc (gydag Anrhydedd), Nyrsio Arbenigol Iechyd yn y Gymuned yn ddiweddar. Penblwydd hapus iawn iti ar y 24ain o Fedi hefyd Michelle.




**Gwyl Bro 360**

'Roedd Gwyl Bro 360 yn ymgais i ddod a chymunedau at ei gilydd i fwynhau unwaith eto. Diolch i Judith Kaufmann a'r criw  drefnodd ddigwyddiad yn Gerlan ar benwythnos 1af Medi. Cafwyd pnawn hwyliog yn y Llyfrgell Blanhigion efo cherddoriaeth gan Dafydd hedd, a digon o amser i sgwrsio a mwynhau. Diolch i bawb am drefnu.

Llongyfarchiadau mawr i Gwion Williams (Tŷ Nain) a fydd yn cychwyn efo swydd newydd o fewn y gwasanaeth ambiwlans. Llongyfarchiadau mawr iti Gwion - mae'r teulu yn falch iawn ohonat.

Llongyfarchiadau i Lisa Williams hefyd. Mae Lisa wedi cychwyn cwrs yng Ngholeg Menai. Bydd y ddau ohona chi yn brysur iawn rhwng y plant ac astudio! Dymuniadau gorau i chi.

# Cynnig Cymraeg Tŷ Gobaith

Tŷ Gobaith, yr hosbis plant lleol, yw'r darparwr gofal iechyd cyntaf i dderbyn cymeradwyaeth Cynnig Cymraeg gan Comisiynydd y Gymraeg, ac yn dathlu eu gwasanaethau Cymraeg.

Mae fideo byr ar wefan Tŷ Gobaith yn amlinellu'r Cynnig Cymraeg a phwysigrwydd y gwasanaethau Cymraeg, yn cynnwys cyfweliadau gyda rhiant un o'r plant sy'n derbyn gofal yn Tŷ Gobaith, a'r Pennaeth Gofal - www.hopehouse.org.uk/cynnig-cymraeg



Dywed Nerys, Mam Bedwyr; *"Yn anffodus rydan ni'n gorfod trafod pethau reit agos i'r galon, pethau does dim llawer o deuluoedd yn gorfod trafod – cynllun gofal, cynllun diwedd oes a ballu – a mae'n neis cael trafod hynny yn yr iaith Gymraeg"*

Ar ôl blwyddyn anodd a welodd gostyngiad incwm o £1.25 miliwn i'r elusen, mae cefnogaeth gan y cyhoedd yn bwysicach nag erioed.

Dywed Kelly Hughes, Swyddog Codi Arian Cynorthwyol; *"Os ydan ni eisiau parhau i ddarparu'r gofal yma yn y Gymraeg, dim ond hefo cefnogaeth y cymunedau Cymraeg fyddan ni'n gallu gwneud hynna'n symud ymlaen"*

Mae llawer o ffyrdd gwahanol i gefnogi, o roi rhodd i fynychu digwyddiad codi arian. Am fwy o wybodaeth am sut allwch gefnogi, neu i roi rhodd, croeso i chi gysylltu gyda Kelly yn y Gymraeg; Swyddfa Codi Arian Tŷ Gobaith, Llys Conwy, 16-18 Ffordd Bangor, Conwy, LL32 8NH, neu 01492 596 581.

Mae Tŷ Gobaith hefyd yn edrych am gyfieithwyr gwirfoddol i helpu gyda pharatoi adnoddau Cymraeg, felly os oes gennych chi ddiddordeb, cysylltwch gyda Kelly ar kelly.hughes@tygobaith.org.uk

*"Yr iaith Gymraeg ydi un o'r pethau sy'n gallu cadw ni'n agos at y gymuned ac mae hynna'n bwysig iawn i ni fel elusen leol"*

# Mynydd Llandygai





**Pel-droed**

Ar brynhawn Sadwrn, y 4ydd o Fedi cafwyd ymweliad arbennig â Chlwb Pêl-droed Mynydd Llandygai.

Fel y mae rhai ohonoch yn gwybod mae eisteddle newydd wedi cael ei adeiladu ar safle y cae – diolch i RWH Fabrications LTD a Cromwell Services am gwblhau'r gwaith.

Ond yn bwysicach fe ddaeth y ddau chwaraewr rhyngwladol – John Hartson a Malcolm Allen draw i'w agor yn swyddogol.

Braf oedd cael croesawu y ddau draw i Fynydd Llandygai a diolch yn fawr iawn iddynt am eu cefnogaeth a bod yn barod i gymdeithasu a siarad am eu hamser yn chwarae ar y safon uchaf a rhannu straeon gyda'r hogia dros beint neu ddau. Diolch John a Malcs a cofiwch alw eto yn fuan.

**Cydymdeimlad**

Trist iawn oedd clywed am y newyddion am farwolaeth Joyce Tong o Fferm Penybwlch yn 48 mlwydd oed. Roedd Joyce wedi brwydro yn ddewr dros y 2 flynedd ddiwethaf. Bu ei hangladd yn yr Amlosgfa ar brynhawn y 24ain o Fedi, gyda'i thaith olaf o amgylch y pendref ac yna lluniaeth yn y Clwb Crosville ym Mangor.

Bydd colled enfawr ar ei hôl, er bod llawer un yn ei hadnabod o'r Ysgol Feithrin o'r pentref, mi fuodd Joyce yn yr ysgol gynradd ym Modfeurig ac yna Ysgol Dyffryn Ogwen gyda llawer iawn ohonym. Gyda chydymdeimlad dwys tuag at Martin ei gŵr, Emma a Beth ei genod a'i ffrindiau a teulu i gyd. Cwsg yn dawel, Joyce bach, bydd colled enfawr ar dy ôl ym Mynydd. Derbynnir rhoddion yn ddiolchgar tuag at Ward Alaw, Ysbyty Gwynedd.

Estynnwn ein cydymdeimlad hefyd at Iona ac Ash Cooke (Gefnan) a'r teulu oll yn eu galar yn dilyn colli tad Iona, Owen Glyn Davies (Glyn Garej Tregarth), a fu farw ar 22ain o Fedi.

**Pen-blwydd hapus**

Yn ddiweddar roedd Vanessa Williams, Tan y Bwlch, yn dathlu ei phen-blwydd yn 40 oed. Pen-blwydd hapus Vanessa a gobeithio fod y teulu wedi dy sbwylio!

**Swydd Newydd**

Llongyfarchiadau mawr i Bethan Fraser-Williams, Bwthyn Peniel, ar ei phenodiad haeddiannol yn ddiweddar fel Cyfarwyddwr Cynlluniau gyda Menter Môn. Da iawn chdi Beth, mae pawb sy'n dy nabod yn falch iawn ohonot!

# Cerbydau trydan i gasglu gwastraff ar eu ffordd




**Mae cerbyd trydan wedi ei dreialu yng Ngwynedd**

Bydd Cyngor Gwynedd yn cyflwyno cerbydau trydan i gasglu deunyddiau ailgylchu yn dilyn cais grant llwyddiannus i Lywodraeth Cymru.

Mae'n dilyn cyfnod treialu cerbyd tebyg yn gynharach yn y flwyddyn lle cafodd staff y Cyngor gyfle i ddefnyddio cerbyd o'r fath am gyfnod byr. Dywedodd y Cynghorydd Catrin Wager, Aelod Cabinet Priffyrdd a Bwrdeistrefol Cyngor Gwynedd: "Fel Cyngor rydym wedi ymrwymo i fynd i'r afael â newid hinsawdd, a rhan o'r ymrwymiad yma yw cyflwyno mwy o gerbydau trydan i'n fflyd dros y blynyddoedd i ddod. "Rydw i'n falch ofnadwy y bydd y cyntaf o gerbydau trydan yn ymuno gyda fflyd casglu ailgylchu a gwastraff y Cyngor yn ystod y misoedd nesaf ac rwy'n obeithiol y bydd rhagor o gerbydau carbon isel yn dilyn.

"Yn gynharach eleni, fe gefais gyfle i weld cerbyd trydan o'r fath yn cael ei dreialu yma yng Ngwynedd ac mae'n amlwg fod potensial clir i wneud mwy o ddefnydd o'r cerbydau o'r fath dros y blynyddoedd nesaf.

"Bydd y cerbydau newydd yn cyfrannu at ein nod o leihau allyriadau carbon. Fel y gwelais o'r treial rhai misoedd yn ôl, bydd y cerbydau casglu modern yma yn fwy tawel wrth iddynt deithio trwy ei cymunedau ac fe allant deithio hyd at oddeutu 80 milltir rhwng gwefrau.

"Fel Cyngor, byddwn yn asesu pa ardaloedd o'r sir fydd y cerbydau trydan yma yn gweithio orau, gan fod cerbydau o wahanol feintiau ar waith mewn rhai cymunedau yn dibynnu ar natur yr ardaloedd.

"Er mai cerbydau trydan fydd y cyntaf fydd yn ein cyrraedd, byddwn yn parhau i fonitro datblygiadau yn y maes i weld os oes yna botensial i ni fuddsoddi mewn cerbydau sy'n cael eu pweru yn defnyddio hydrogen i'r dyfodol allai fod yn fwy addas mewn rhai tirweddau ac ardaloedd o'r sir."

# Talybont

**Neville Hughes**,
14 Pant, Bethesda
(600853)
**Barbara Jones**, 1 Dol Helyg, Talybont (353500)

**Newyddion Talybont**
Ychydig iawn o newyddion sydd gennym o Dalybont y mis yma. Fel roeddem yn dechrau edrych ymlaen at fywyd mwy 'normal', fe gododd rhifau'r cleifion yn dioddef o'r Cofid drwy Gymru unwaith eto. Beth bynnag, er gwaetha' pawb a phopeth, mae arweinwyr sawl gweithgaredd yn yr ardal yn gwneud eu gorau glas i ail-afael yn yr awennau. Daliwn i fyw mewn gobaith.

**Babi newydd**
Efallai y cofiwch inni longyfarch Tammy, 28 Cae Gwigin, y mis diwethaf, ar ddod yn nain am yr eil-dro?

Mae'n dda gennym ddeud bod Valencia Grace adref o Ysbyty Alder Hey ac yn dod yn ei blaen yn ardderchog. Mae hi wedi gorfod cwffio'n galed. Derbyniodd y driniaeth gyntaf bedair awr ar ôl ei genedigaeth , a thriniaeth ddwysach byth ymhen ychydig dyddiau.

Gorfu i'w mam, Abbie, a'i thad, Taylor, y ddau yn ifanc, wynebu cyfnod anodd iawn cyn, ac ar ôl, i'r babi gael ei geni. Maent yn haeddu'n hedmygedd.

Mae Valencia bach yn ddigon o ryfeddod ac yn gannwyll llygad y teulu cyfan. Gwyn eich byd!

**Profedigaeth**
Wrth i'r 'Llais' fynd at y Cyhoeddwyr, daeth y newyddion trist bod David Jones, Cae'rengan, Gatws, wedi marw, yn dilyn brwydr ddewr â'r clefyd creulon, 'Motor Neurone'. Estynnwn gydymdeimlad dwysaf at y teulu oll yn eu hiraeth.

**Brysia wella!**
Mae Rita Thomas, Bryn Celyn, Gatws, wedi treulio cyfnod yn yr ysbyty, yn dilyn codwm cas yn ei chartref ar y 7ed o Fedi, pryd y torrodd ei chlun. Erbyn hyn, mae hi adref yn gwella. Rydym i gyd yn cofio atat, Rita, ac yn gobeithio na fydd yn hir cyn y byddi'n cerdded, ac yn gyrru, unwaith eto.

**Penblwydd Arbennig**
Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Mrs. Rita Hughes, 7 Lôn Ddŵr, a ddathlodd ei phenblwydd yn 80 oed ar 25 Medi. Gobeithiwn ei bod wedi mwynhau ei diwrnod mawr!

**Llongyfarchiadau**
Daeth llwyddiant i ran Eleri Pritchard, 14 Dolhelyg, wrth iddi basio ei phrawf gyrru ychydig o ddyddiau cyn dathlu ei deunawfed penblwydd. Dymunwn flynyddoedd lawer o yrru'n ddiogel iti, Eleri, a phob hwyl ar dy waith coleg.

**Newid gyrfa**
Mae Jamie Jones, 80 Bro Emrys, wedi cwblhau ei hyfforddiant ac wrth ei fodd yn ei waith newydd efo'r Gwasanaeth Ambiwlans. Felly, ar ôl bwlch o rai blynyddoedd, mae gennym 'Jamie Ambiwlans' yn Nhalybont. Mi fuasai John, ei ddiweddar daid ar ben ei ddigon wrth weld ei ŵyr yn dilyn ôl ei droed.
Ar ôl blynyddoedd o weithio fel Saer Coed, mae Paul, tad Jamie , wedi cael ei dderbyn i Heddlu Gogledd Cymru. Bydd yn dechrau ar ei yrfa newydd ym mis Ionawr. Pob bendith i ti, Paul.

**Dymuniadau gorau**
Dymunwn yn dda i Mitchel , brawd Jamie, fydd yn cymeryd rhan yng ngornest paffio Pencampwriaeth Cymru cyn diwedd Medi. Mae Mitchel yn baffiwr o fri . Pob lwc iddo!

**Menter newydd**
Mae Jake Anderson 69 Bro Emrys, hefyd , yn Saer Coed, ac mae ei frawd iau, Sam, wedi mynd ato i hyfforddi fel 'prentis. Dymunwn bob llwyddiant i'r ddau frawd wrth iddynt fentro i fyd busnes.

## Capel Bethlehem

*Oedfaon*
Dyma'r oedfaon a gynhelir bob Sul am 2 o'r gloch:-
17 Hydref : Y Parchedig Cledwyn Williams.
24 Hydref : Y Gweinidog, Y Parchedig John Pritchard.
31 Hydref : Y Parchedig Dafydd Coetmor Williams.
7 Tachwedd: Mr. Dafydd Iwan.
14 Tachwedd : Y Gweinidog.
21 Tachwedd : Y Parchedig Dafydd Wyn Wiliam.
Croeso cynnes i bawb.

*Syrpreis i Rita a Hughie*
Ar ddiwedd yr oedfa ym Methlehem ar 26 Medi cyflwynwyd cacen penblwydd 80 oed i Rita a Hughie Hughes. Trefnwyd hyn yn ddiarwybod iddynt gan aelodau'r capel, ac fe gawsant sioc bleserus. Roedd Rita wedi dathlu ei phenblwydd arbennig y diwrnod cynt, a Hughie wedi dathlu'r 80 ym mis Mawrth (ond heb gael cacen bryd hynny)! Dymunwyd y gorau i'r ddau!





C.L. JONES
Masnachwyr Coed a Nwyddau Adeiladu



Bethesda 01248 600045
Caernarfon 01286 676070
Llangefni 01248 751677

Cludiant am ddim yn lleol
Stoc helaeth ac amrywiol
Staff cyfeillgar a phroffesiynol
Popeth ar gyfer y diwydiant a D.I.Y

Mynytho 01758 730768
Llanrwst 01492 640794
Caergybi 01407 728728

Mae Arddangosfa Ceginau ac Ystafelloedd Ymolchi yn ein cangen yn Llangefni a Llanrwst

# Côr y Penrhyn yn ailafael yn yr ymarferion

## (adroddiad gan Derfel Roberts)





Oherwydd y Cofid 19 caed cyfnod pur faith dan hualau'r clo mawr ond ers canol Awst mae aelodau Côr y Penrhyn wedi ail gydio yn eu hymarferion.  Ar y cychwyn bu'r tywydd yn ddigon braf i'r hogia allu ymarfer yn yr awyr iach y tu allan i gampfa a Neuadd Ysgol Dyffryn Ogwen.  Roedd brwdfrydedd yr aelodau wrth gael cwrdd unwaith eto yn amlwg drwy'r côr ac er bod ambell aelod heb ail-ymddangos, mae nifer o rai newydd wedi ymuno ac mae'n dda cael eu croesawu I'n plith.

**Rhys Meirion ac Elin Fflur yn canu efo'r côr.**
Ar y 3ydd o Ragfyr bydd y côr yn canu yn y Gadeirlan ym Mangor er budd Hosbis Dewi Sant a bydd y tenor enwog, Rhys Meirion a'r gantores o Fôn, Elin Fflur, yn perfformio gyda ni.  Hwn fydd y cyngerdd cyntaf i'r côr ganu ynddo ers i'r pandemig roi terfyn ar bob gweithred gymdeithasol.  Oherwydd y cyfyngiadau nid oes sicrwydd eto faint o seddau fydd ar gael.  Felly, gwyliwch am yr hysbysebion ac archebwch docynnau ar unwaith gan y bydd mynd mawr arnyn nhw.  Gobeithiwn am y gorau mewn sefyllfa mor ansicr.

# Clwb Ffermwyr Ifanc Dyffryn Ogwen

Ar ôl cyfnod heriol i bawb yn ystod y flwyddyn a hanner diwethaf, mae Clwb Ffermwyr Ifanc Dyffryn Ogwen wedi ail ymgynnull unwaith eto. Ein cyfarfod gyntaf oedd cael helfa drysor mewn ceir ac yna tamaid i fwyta yn y sied yn Nhŷ Newydd. Yn bendant, mae'n braf cael bod yn ôl efo'r criw hwyliog ac yn barod i groesawu aelodau newydd sydd ym mlwyddyn 9 at 30 oed. Am fwy o wybodaeth cysylltwch efo Betsan Griffiths efo: betsancain@hotmail.com



# Nant Ffrancon

**Penblwydd Arbennig**
Ar Fedi'r 9fed dathlodd Mrs. Doris Williams, Maes Caradog, ei phenblwydd yn 90 oed. Bu Maes Caradog yn brysur iawn drwy'r dydd, gyda theulu, cyfeillion a chymdogion yn galw heibio. Erbyn diwedd y dydd 'roedd y tŷ yn edrych fel "Gardd Eden", yn llawn o flodau hardd a chardiau lu! Gobeithio eich bod wedi mwynhau eich diwrnod mawr! Cofion atoch a phob dymuniad da.

**Diolch**
Hoffwn ddiolch o galon am bob cardyn, anrheg, galwad ffôn a chyfarchiad a dderbyniais ar fy mhenblwydd yn 90 oed. Rwyf yn gwerthfawrogi bob un. Cofion cynnes atoch i gyd.
Doris Williams. (Maes Caradog)

CHRIS GRIFFITHS CYF
Trwsio ffenestri upvc, drysau, cloeau, bachau, twll llythyrau ac unedau gwydr wedi chwythu

18 Carreg Felin
Llandegfan
Ynys Môn
LL59 5YB
☎ 01248 713 369 neu 07813 455653

Arfbais Douglas Arms
Cwrw Casgen - Gardd Gwrw
Oriau Agor
Llun a Mawrth - wedi cau
Mercher – Gwener 18:00 – 23:00
Sadwrn 15:30 – 00:00
Sul : 18.00 – 23.00
01248 602537


J. TEMPLE MORRIS A'I FAB
Pob Math o Waliau Cerrig,
Ffensio, Tarmacio a Thirlunio.
Gwaith gyda peiriant tyrchu bach.
07770 900531
01248 600282
jtemplemorris@btinternet.com

## Ysgol Bodfeurig

**Croeso nôl!**
Dyna braf oedd croesawu pawb yn ôl i'r ysgol eleni – pawb yn wên o glust i glust wrth weld eu ffrindiau. Braf hefyd oedd croesawu'r plant newydd oedd yn ymuno gyda ni boed yn y dosbarth meithrin neu yn ein dosbarthiadau arall. Croeso mawr i bawb gan obeithio bydd eleni yn flwyddyn well yn llawn o hwyl a sbri!

**Thema**
**Dosbarth Ogwen**
Thema dosbarth Ogwen y tymor yma fydd dwr. Yn ystod y tymor byddent yn cael llawer o gyfle i ddysgu am agweddau e.e. creaduriaid y dwr, llygredd dwr, gwaith Water Aid yn ogystal a hanes dwr yng Nghymru megis hanes Tryweryn.
Eisoes maent wedi bod yn ymchwilio i greaduriaid y môr ac wedi creu cylched dwr gan ddefnyddio bagiau a lliw bwyd!

**Dosbarth Idwal**
Mae dosbarth Idwal yn gwneud un o'r themau sydd wastad yn boblogaidd – baw, annibendod a chymysgeddau...dipyn o lond ceg ond mewn geiriau arall – gwneud golwg! Maent wedi cael llawer o hwyl yn barod y tymor yma yn casglu dail a blodau i wneud cymysgeddau hud, cymysgu paent, arbrofi gyda sebon, cymysgu swynion a choron ar y cyfan oedd y Diwrnod Annibendod! Pawb yn cael hwyl gyda paent, swigod, mwd a llawer mwy!

**Ysgol Goedwig**
Mae plant dosbarth meithrin a derbyn wedi mwynhau ail ddechrau sesiynau ysgol goedwig gyda Miss Emily. Gyda'r Hydref yn prysur gyrraedd roedd y wers gyntaf yn edrych ar y lliwiau sydd i'w gweld mewn natur – edrychwch ar y lliwiau hardd welodd rhai o'r plant!

**Ymweliad PC Owain a PC Dylan**
Diolch i'r ddau heddwas Owain a Dylan am ymweld â'r ysgol eto eleni. Maen't wastad yn dysgu gwersi pwysig iawn i'r plant – y tro yma sôn yr oeddent am ddieithriaid ac am beryglon cyffuriau.








## Chwilio am grant?

### Os ydych chi'n...

- fudiad cymunedol neu wirfoddol sydd wedi ei leoli neu'n gweithredu o fewn Dyffryn Ogwen, yr ardal sydd o fewn ffiniau Cynghorau Cymuned Bethesda, Llandygai a Llanllechid
- cynllunio prosiect amgylcheddol a fydd yn creu budd i drigolion Dyffryn Ogwen
- gallu gweithio trwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog

### ...efallai y gallwn ni eich helpu!

# Elusen Ogwen

### Pwy ydyn ni?

- Mae Elusen Ogwen yn elusen gofrestredig a ffurfiwyd ym mis Rhagfyr 2020. Rydym yn cael ein hincwm o ran o'r elw a wneir gan Ynni Ogwen drwy gynhyrchu ynni adnewyddadwy yn Nyffryn Ogwen.
- Ein prif nod yw cefnogi mentrau ym maes cynaliadwyedd a fydd yn gwella ansawdd bywyd i drigolion, grwpiau a chymunedau Dyffryn Ogwen.

**Mae grantiau o hyd at £2,000 ar gael drwy gydol y flwyddyn.**

### Am ragor o wybodaeth:

Gweler ein tudalen Facebook neu ein gwefan:
https://www.ogwen.cymru/cy/prosiectau-cymunedol/elusen-ogwen/
Cysylltu: elusenogwen@gmail.com

Elusen Ogwen: Elusen gofrestredig rhif 1192642

## Ysgolion Pen-y-bryn ac Abercaseg, Bethesda

**Croeso!**
Croesawn deulu bach newydd o wynebau yn y Meithrin ac i'r rhai hynny yn y Derbyn sydd hefo ni drwy'r dydd. Maent oll wedi setlo'n arbennig yn ein mysg. Croeso cynnes iawn hefyd i blant newydd Blwyddyn 3 i Ben-y-bryn! Maent oll wedi setlo'n wych gyda Miss Ffion Jones yn yr Adran Iau. Croeso cynnes hefyd i Miss Lorraine Williams yn gymhorthydd yn Abercaseg, i Sioned Jones am dderbyn swydd Ysgrifenyddes Abercaseg, ac i Miss Glesni Jones sydd wedi trosglwyddo o Abercaseg i Ben-y-bryn dros yr haf! Mi fydd Miss Jones yn dysgu Dosbarth Carnedd dros gyfnod mamolaeth Miss Lisa Jones, ac yn barod mae hi wedi gwirioni gyda brwdfrydedd a gwaith y plant.

**Llongyfarchiadau mawr!**
Fel ysgol, hoffem longyfarch Mrs Catrin Jones ar enedigaeth ei merch, Nel Gwenllian a hefyd i Miss Lisa Jones ar enedigaeth ei merch fach, Nansi Grug. Newyddion hyfryd a dymunwn yn dda i chi gyda'r magu ac edrychwn ymlaen at gyfarfod y ddwy fach.**Glan-llyn**
Yn dilyn blwyddyn digon ansefydlog y llynedd, doedd ond un ffordd o gychwyn ein tymor newydd ym mis Medi, sef mynychu Gwersyll Glan-llyn yn y Bala. Heidiodd blwyddyn 5 a 6 yno am dridiau i fwynhau amrywiaeth o weithgareddau amrywiol o ganŵio, nofio, rhwyfo, dringo , helfa drysor, dim ond i enwi ychydig ohonynt. Braf oedd gweld y plant yn cymdeithasu gyda'i gilydd yn Gymraeg , gan fwynhau pob eiliad o'u cyfnod yng Nglan-llyn. Diolch arbennig i'r holl staff am ofalu am y plant, ond mae'r diolch pennaf i'r plant am ddod ac enw da i'r ysgol gyda'u cwrteisi amlwg dros y tridiau a dreuliom yno. Cawsom wyliau i'w gofio. Diolch Glan-llyn !!

**Ffarwelio**
Gyda chalon drom, daeth hi'n amser i ni ffarwelio gyda Anti Edwina wrth iddi ymddeol o Ysgol Abercaseg. Yn wir, roedd Anti Edwina yn aelod amhrisiadwy o staff Ysgol Abercaseg ers dros 23 o flynyddoedd ac yn aelod gwerthfawr iawn o'r Corff Llywodraethol.
Heb os, mae wedi mynd y filltir ychwanegol i blant, rhieni a staff Ysgol Abercaseg, boed yn y Clwb Brecwast neu fel ei rôl fel Ysgrifenyddes. Yn gynnar pob bore bydd yn croesawu ac yn paratoi brecwast i'r plant, a byddai'r hen blantos wrth eu boddau yn cael sgwrsio gyda Anti Edwina ac yn cael eu cyfarch gyda gwên gynnes. Rydym fel staff wedi bod yn hynod o ffodus yn cael ysgrifenyddes drefnus, fedrus, gweithgar a charedig. Yn sicr, mi fydd bwlch mawr ar ei hôl.

Felly, er mwyn dangos ein gwerthfawrogiad ac er mwyn diolch o waelod calon iddi am ei holl waith dros y blynyddoedd, cafwyd gwasanaeth bach ar iard yr ysgol gan ddilyn â the pnawn er mwyn hel atgofion a rhannu hanesion difyr, a doniol iawn yn ei chwmni.



**Sŵ Bae Colwyn**
Mae pawb ym Mhen-y-bryn wedi dechrau gwaith ar y llyfr Sŵ Sara Mai gan Casia Wiliam, gan fod pob dosbarth yn dilyn yr un thema - Fi a Fy Myd. Er mwyn cyfoethogi ac atgyfnerthu'r gwaith, aethpwyd â phawb i Sŵ Bae Colwyn! Gwelwyd ystod eang o anifeiliaid: o gamelod i firgathod, o fwncïod i'r arth frown. Yn ogystal â gweld yr holl anifeiliaid, cafwyd gweithdy diddorol iawn ynglŷn â nodweddion corfforol anifeiliaid a sut roedd y rheiny'n helpu'r anifeiliaid oroesi'n eu cynefinoedd. Cawsom gyfarfod â geko, neidr a malwod mawr a difyr oedd dysgu am draed y geko, gên y neidr a llysnafedd y malwod, ymysg pethau eraill. Cafwyd diwrnod gwerth chweil yn y sw gyda phawb wedi mwynhau'n arw.





## A hoffech chi gael hysbyseb yn y papur?




Cysylltwch â Neville Hughes (Ffôn 600853)
nev_hughes @btinternet.com

## Rhiwlas

**Iona Jones**, 17 Bro Rhiwen, Rhiwlas
ionarhiwen@hotmail.co.uk (01248 355336)

**O gofnodion Cyngor Llanddeiniolen**
Llwybrau Rhiwlas

Rhiwlas - Deiniolen Cychwyn yn rhif 69 ac yna yn arwain i 71. Heibio Caemawr, Bronydd, Maes Meddygon ac i Bwlch Cae Mawr. Uwchben Bwlch Cae Mawr, mae'r cloddiau wedi disgyn i mewn i'r llwybr, ac mae cerddwyr yn gorfod cerdded ar dir y fferm. Mae angen adfer y llwybr.

Mae yna arwydd ym Maes Meddygon, ond dim un arwydd uwchben Maes Meddygon ar grib y mynydd i ddangos lle mae'r llwybr.

Llwybr Carreg y Gath tuag at Rallt Pentir Rhif 74. Mae 3 llwybr yn uno tuag at yr allt. Nid oes arwydd o gwbl. Mae gwartheg a cheffylau yn rhwbio yno ac yn gwisgo'r arwydd dros amser. Angen arwydd newydd.

Lôn Castell, Llwybr 61. Hollti llwybr 60 a 62, un i Garfan a llall i Dyddyn Badin. Mae'r llwybrau yn mynd dros dir Tros y Waun. Mi fu pont a chamfa yno ar un adeg, ond yn wir angen arolwg ar y llwybr yma i weld be sydd angen i wella. Mae'r llwybr ei hun mewn lle da ond wedi dirywio, ac rydym angen ei uwchraddio.

**Cydymdeimlo**
Cydymdeimlwm â Mair Roberts, Hafod Lon yn ei phrofedigaeth. Bu farw ei chwaer, Margaret Wyn Williams o Bryn Rhiwen, Deiniolen. Roedd yn 90 oed a bu farw yn dawel yn Ysbyty Gwynedd. Roedd yn fodryb i Nia, Eirwen, Gwynfryn ac Alwyn ac yn chwaer i Mai Williams, Bro Rhiwen gynt. Anfonwn ein cofion atoch fel teulu.

Rhai dyddiau cyn anfon y newyddion i'r golygydd fe'n brawychwyd gan farwolaeth Valmai Jones, Penrhyn Teras, mam Eilir a Rheon a chwaer Eunice. Rydym yn meddwl amdanoch. Does dim dim mwy o fanylion ar y funud.

**Merched y Wawr**
Cawsom ein cyfarfod cyntaf ym Mis Medi yng ngardd Linda a buom yn trafod y ffordd ymlaen, mwy o fanylion i ddod. Roedd y tywydd yn ffafriol ac roedd yn braf cael clywed am hynt a helynt ein gilydd yn ystod y cyfnod clo. Diolch i Linda am y croeso a'r baned.

**Dymuno'n dda**
Llongyfarchiadau i Morgan Huw, Bryn Seiriol, a'i gymar Harriet ar enedigaeth mab, Ifan Huw. Mae'r ddau ar y funud yn byw yn Llanrug ac anfonwn ein cofion atoch.

**Brysiwch wella**
Mae amryw o'r pentref heb fod yn dda yn ddiweddar. Bu Alwyn Tŷ'r ysgol yn yr ysbyty a sawl un yn cwyno. Mae'r pandemig efo ni o hyd a mae'n rhaid bod yn ofalus yn enwedig pan fo y rheolau wedi llacio. Cofion atoch i gyd.

**Y Neuadd**
**Cyfarfod Blynyddol** – Nos Iau Hydref 21 am 7 o'r gloch. Bydd posteri yma ac acw yn y pentref gyda mwy o wybodaeth.

# Am lecyn yw Moelyci

HANES TAITH CLWB MYNYDDA CYMRU GAN NIA WYN, SEION



Ar fore hyfryd o Fedi cyfarfu 17 ohonom ym maes parcio Fferm a Chanolfan Amgylcheddol Moelyci ger Tregarth. Cychwynnwyd ar hyd y lôn fferm i gyfeiriad Tŷ'n Y Caeau cyn troi i'r chwith i ddilyn llwybr trwy goedlan hyfryd. Wedi dringo rhywfaint, cyrhaeddwyd at y lôn fach islaw Waen Hir Uchaf ac aethom i'r dde gan ddilyn Llwybr Y Pererinion am sbelan. Nadreddu ein ffordd i fyny wedyn drwy goedwig binwydd cyn dod allan i'r heulwen eto ym Mwlch Defeity; llecyn dymunol i gael panad a mwynhau'r olygfa wych i lawr at y Fenai tuag at Biwmares ac Ynys Seiriol. Ymlaen am blwc ar hyd ffordd goedwigaeth cyn dod allan yr ochr ddwyreiniol i gael golygfa fynyddig y tro hwn dros fro Bethesda tuag at Foelydd Ogwen a'r Carneddau. Diolch i Richard Ogwen am rannu ei wybodaeth o'r ardal. Trwy'r giât wedyn i ddilyn llwybr trwy'r grug i fyny i gopa Moelyci lle cafwyd cinio. Lle da i gael golygfeydd 360 gradd ond erbyn hyn roedd cymylau'n cuddio copaon Elidir a'i chriw a Moelydd yr Wyddfa. Ond cafwyd golygfeydd godidog dros bentrefi Arfon tuag at fae Caernarfon ac Ynys Môn.

Ar ôl cinio, gwneud ein ffordd i lawr Moelyci ac ar draws rhostir Parc Drysgol at odre Moel Rhiwen. Gwneud gwyriad bychan wedyn i weld adfail bwthyn Maes Meddygon a chael peth o hanes bywyd caled y teulu olaf i fyw yno ar droad y ganrif ddiwethaf. Ar i lawr wedyn heibio coed criafol prydferth yn llawn o aeron coch cyn ymuno hefo'r llwybr sy'n arwain i bentref Rhiwlas. Rhaid oedd stopio yng Ngharreg y Gath i gael llun o'r criw yn sefyll ger cyn-gartref Gwen Aaron! Ymlaen â ni a dotio at dri mochyn yn bolaheulo a thwrci tew mewn perllan yr ochr arall i'r llwybr. Croesi'r llethr o dan ochr ogleddol Moelyci ac ymuno gyda hen ffordd drol a llwybr hynafol i lawr at ficerdy Rhyd y Groes. Roedd y rhan olaf yn eitha gwastad ar dir amaethyddol gan fynd trwy sawl giât mochyn, yn cynnwys un arbennig o gul! Wedi cyrraedd yn ôl arhosodd tua dwsin ohonom i gael panad a chacen haeddiannol yng Nghaffi Blas Lôn Las.

Diolch yn fawr am gwmni difyr y canlynol; Haf, Gwyn Chwilog, Anet, John Arthur, Alun Gelli, Gareth Tilsley, Rhiannon a Clive, Iona a Mair, Mags Sir Fôn, Glyn Tom, Buddug, Gwen Richards, Richard Ogwen a Nest Jones.


# CROESAIR

## AR DRAWS

1 Y bachgen o Lŷn yn ôl Hogia'r Wyddfa (4)
5 Yn y paill y mae'r gwenyn, os nad ydi o'n wan a diymadferth (4)
7 "Wylit, wylit Lywelyn" oedd ymateb un bardd i'r hyn ddigwyddodd yn1969 (7)
8 A'u siop yn llawn o ddewisiadau henffasiwn (8)
10 Tocyn i geisio ennill gwobr (4)
12 Lliw (4)
14 Tyf gi syn yn bengaled os na roi'r trefn arno (8)
16 "Rhoi ei chorff dan haul porffor" medd y cynganeddwr am hyn (8)
17 'Y ---- Wen' yn dial rywsut a chodi ofn (4)
18 Segurdod a rhwd sydd orau i hwn medd y ddihareb (4)
19 Eisteddfod 'Y Cynhaeaf' 1966 (8)
22 Rhodres a brolio'ch hun (7)
23 Oriau wythfed ran o'r dydd (4)
24 Gwneir mawr elw o werthu'r tanwydd yma wedi ei buro (4)

## I LAWR

1 Newid ei liw fel y mynnaf (4)
2 Catrin fach (4)
3 Cael awel iach wrth drafod yn agored, efallai (8)
4 Yr hynaf o efeilliaid Isaac a Rebecca (4)
5 Graf Spee neu Belgrano (3,5)
6 Chwa fel yr un "o Galfaria fryn" (4)
9 Gair olaf pedair llinell englyn (7)
11 Cyfaill ffyddlon (5,2)
13 Y rhai sy'n achwyn a gweld bai (8)
15 Dwyn esgid ceffyl i newid polisi, fel y llywodraeth (3,5)
18 Yn ddiarhebol mae o'n well na thwll (4)
19 Taffi cymysg o'r pyramidiau (4)
20 Llais canu (4)
21 Bob Roberts, Tai'r Felin yn sôn am ei wraig tybed (4)




**Enw:** ................................................

**Cyfeiriad:** ................................................

................................................

**ATEBION CROESAIR MEDI 2021**
**AR DRAWS** 1 Tŷ Ha, 3 Gyw, 8 Berwi, 9 Anobaith, 10 Cybolfa, 11 Cuchio, 12 Dirprwy Faer, 17 Egino, 9 Synnwyr, 21 Addoldai, 22 Golwg, 23 Dydd, 24 Haws

**I LAWR** 1 Tybaco, 2 Horeb, 3 Gwarchae, 4 Wythnos, 5 Tiwlip, 6 Paradwysaidd, 7 Tolc, 13 Ieithoedd, 14 Finegr, 15 Degawd, 16 Bregus, 18 Oedi, 20 Wylfa

Braf oedd gweld nifer ohonoch wedi mentro'n ôl unwaith eto i'r gystadleuaeth. Diolch o galon i nifer dda ohonoch a yrrodd i ddweud pa mor falch oeddych o weld yr ail-gychwyn, ac anfon eich dymuniadau gorau. Gwerthfawrogir y cyfan. Dim ond dau gamgymeriad a gafwyd y tro yma. Rhoddwyd 'gwarchle' yn lle 'gwarchae' a 'finigr' yn lle'r sillafiad cywir 'finegr'.

Dyma'r rhai gafodd y cyfan yn gywir: J. R. Jones, Llanllechid ; Rita Bullock, Gaynor Elis-Williams, Bethesda ;Dulcie Roberts, Elizabeth Buckley, Tregarth ; Barbara Jones, Talybont; Emrys Griffiths, Rhosgadfan ;Dilys Wyn Griffith, Abergele ; Iona Williams, Llanddulas; Dilys Parry, Rhiwlas.
Y cyntaf allan o'r het am y wobr oedd ymgais **Emrys Griffiths**, 5 Llwyn, Rhosgadfan, Caernarfon, LL54 7HN. Llongyfarchiadau calonnog i chi.

Atebion erbyn 5ed Tachwedd, 2021 *fan bellaf* i 'Croesair Hydref', Bron Eryri, 12 Garneddwen, Bethesda, Gwynedd LL57 3PD.






# Gwerth £200K o sigaréts anghyfreithlon wedi'u meddiannu yng Nghymru

Mae MILIWN o sigaréts anghyfreithlon gyda gwerth stryd sy'n fwy na £200,000 wedi cael eu meddiannu yng Nghymru fel rhan o ymgyrch o bwys ar farchnad tybaco anghyfreithlon y wlad.

Llwyddwyd i gyrraedd y garreg filltir gan Dimau Safonau Masnach Cymru oedd yn cymryd rhan yn Ymgyrch CeCe, menter barhaus gan Safonau Masnach Cenedlaethol mewn partneriaeth gyda Chyllid a Thollau Ei Mawrhydi (HMRC) i fynd i'r afael â thybaco anghyfreithlon.

Maen nhw'n dweud fod y casgliad a feddiannwyd yn ystod y cyrchoedd a gynhaliwyd yng Nghymru, yn cynnwys 1,039,046 o sigaréts a 3,377.6 cwdyn o dybaco rholio â llaw, gyda chyfanswm gwerth o £286,782.30 ar y stryd – arian a fyddai fel arall wedi bod ym mhocedi gangiau troseddol.

Byddai llawer o'r sigaréts a feddiannwyd wedi diweddu yn nwylo plant a phobl ifanc o fewn cymunedau tlotaf Cymru sy'n cael eu targedu gan droseddwyr yn gwerthu tybaco anghyfreithlon. Dengys tystiolaeth fod cyflenwadau tybaco anghyfreithlon mewn 17 allan o'r 22 ardal awdurdod lleol yng Nghymru a bod cyrchoedd meddiannu wedi'u cynnal mewn 12 ardal hyd yn hyn.

Dywedodd Helen Picton, Cadeirydd Safonau Masnach Cymru: "Mae'r fasnach mewn tybaco anghyfreithlon yn creu ffynhonnell rad o dybaco i blant a phobl ifanc. Mae'n tanseilio'r holl waith da a wneir i atal pobl rhag ysmygu ac mae cysylltiadau cryf gan y fasnach tybaco anghyfreithlon fwy aml na pheidio gyda gweithgaredd troseddol."

Yng Nghymru, mae 8% o bobl ifanc 15 a 16 mlwydd oed yn parhau i ysmygu ar sail reolaidd – ffigwr nad yw wedi gostwng ers 2013. Mae oddeutu 6,000 o blant yng Nghymru yn dechrau ysmygu pob blwyddyn a bydd tri allan o bedwar o'r plant hynny yn mynd ymlaen i fod yn ysmygwyr tymor hir.

Mae ysmygu yn ddibyniaeth sy'n dechrau mewn plentyndod a chanfu arolwg diweddar gan ASH Cymru fod 76% o ysmygwyr yng Nghymru wedi rhoi cynnig ar eu sigarét gyntaf cyn bod yn 18 mlwydd oed.

Dywedodd Suzanne Cass, Prif Swyddog Gweithredu ASH Cymru: "I nifer o blant, bydd prynu eu pecyn cyntaf o sigaréts anghyfreithlon yn gychwyn ar ddibyniaeth gydol oes a fydd yn dinistrio eu hiechyd, yn eu harwain i mewn i dlodi ac a fydd yn eu lladd yn y pendraw.

"Mae rhoi terfyn ar y fasnach angheuol hon yn rhan hanfodol o ostwng nifer yr achosion o ysmygu yng Nghymru sy'n sefyll ar 18% o'r boblogaeth oedolion ar hyn o bryd ac yn arwain at fwy na 5,000 o farwolaethau pob blwyddyn.

"Rydym yn croesawu unrhyw weithredu a wneir i waredu â thybaco anghyfreithlon o fewn ein cymunedau ac yn gobeithio y bydd hyn yn parhau i ffurfio rhan o unrhyw strategaeth i fynd i'r afael ag anghyfartaledd iechyd Cymru."

Ers lansio'r ymgyrch ym mis Ionawr 2021, mae Safonau Masnach a'r HMRC wedi bod yn casglu gwybodaeth ar gangiau tybaco troseddol ac yn bwriadu cynnal rhagor o gyrchoedd led led Cymru yn ystod yr ychydig fisoedd nesaf.

"Rydym angen cadw tybaco allan o ddwylo plant. Mae cynnyrch tybaco rhad yn ei gwneud hi'n haws i blant ddechrau ysmygu, gan ei fod yn cael ei werthu am brisiau arian poced gan droseddwyr nad ydynt yn malio am gyfreithiau cyfyngiadau oedran," dywedodd Helen Picton.

Dywedodd yr Arglwydd Toby Harris, Cadeirydd Safonau Masnach Cenedlaethol: "Mae'r fasnach mewn tybaco anghyfreithlon yn niweidio cymunedau lleol ac yn effeithio ar fusnesau gonest sy'n gweithredu o fewn y gyfraith. Mae'r fenter Safonau Masnach Cenedlaethol mewn partneriaeth â'r HMRC yn chwarae rôl arwyddocaol wrth aflonyddu ar y fasnach anghyfreithlon hon ac yn helpu i gymryd cynnyrch tybaco anghyfreithlon oddi ar y strydoedd."

Dywedodd Lynne Neagle, y Dirprwy Weinidog dros Iechyd Meddwl a Lles: "Rydym yn ymroddedig tuag at roi terfyn ar werthu a defnyddio tybaco anghyfreithlon. Mae'r ffaith ei fod ar gael yn ei gwneud hi'n haws i blant ddechrau ysmygu, yn anoddach i'r sawl sydd eisiau rhoi'r gorau i ysmygu ac yn cyflwyno troseddwyr i mewn i'n cymunedau lleol.

"Mae Ymgyrch CeCe wedi arwain at y gweithgareddau atal mwyaf ar dybaco anghyfreithlon yng Nghymru ers datganoli. Rydym yn cefnogi gwaith parhaus yr HMRC a Safonau Masnach Cymru. Fe fyddwn yn lansio ymgyrch tybaco anghyfreithlon yn fuan i godi ymwybyddiaeth gyhoeddus ac annog adrodd ar dybaco anghyfreithlon."

Os ydych yn meddwl fod rhywun yn gwerthu tybaco anghyfreithlon, ffoniwch Crimestoppers ar 0800 555 111 neu edrych ar http://crimestoppers-uk.org a dweud wrthynt yr hyn yr ydych yn ei wybod. Gall eich gwybodaeth helpu cadw eich cymuned yn ddiogel ac yn iach.

Os ydych eisiau rhoi'r gorau i ysmygu, ffoniwch Helpa fi i Stopio (Help Me Quit) ar radffon 0800 085 2219 neu edrychwch ar https://www.helpmequit.wales/

Arbenigwr mewn lloriau coed caled
A.G.L.
Lloriau
Arbenigwr mewn gosod a selio lloriau coed caled, adnewyddu lloriau gwreiddiol a chyweirio lloriau sydd wedi eu difrodi.
Andrew G. Lomozik B.A.
Ffôn: 01248 602117 Symudol: 07835487909

Eisteddfod Gadeiriol Dyffryn Ogwen
(Diwrnod y Plant - mwynhad pur!)
Sadwrn, 20 Tachwedd 2021
10.00yb
yn
Ysgol Dyffryn Ogwen
Gwledd o Gystadlaethau Cynradd:
Canu, Llefaru, ac Offerynnol
Dawns, Celf a Chrefft

BYSUS
D. R. Owens
RHIWLAS
01248 361044 a 07771 634195

Bysus o 25 i 57 sedd ar gael ar gyfer eich holl anghenion teithio - tripiau, priodasau, partïon ac ati.
Bysus Gwyrdd Rhiwlas
GWASANAETH LLEOL, TRADDODIADOL A DIBYNADWY
SEFYDLWYD 1997 PERCHENNOG: DERFEL OWENS

# Tregarth

**Olwen Hills (Anti Olwen)**, 48 Bro Syr Ifor, Tregarth (600192)
**Angharad Williams**, 23 Ffordd Tanrhiw, Tregarth (601544)
**Gwenda Davies**, Llanfairpwll (gwendaglyn@hotmail.com)

**Cydymdeimlad**

Anfonwn ein cydymdeimlad dwysaf at deulu Glyn Davies, neu Glyn Llan fel yr adnabyddid ef gan ei fod yn wreiddiol o Lanllechid. Bu farw ar yr 22ain o Fedi yn ei gartref Bodiwan Lon y Wennol Llanfairpwll. Bu wrth gwrs yn byw am flynyddoedd yn Nhregarth gyda'i briod cariadus Gwenda ac yno magodd y ddau dri o blant a bu'n dad arbennig i Iona, Dyfed a Sion. Roedd hefyd yn daid annwyl i Ifan Rhys, Nel Mai, Myfi Celyn, Mali Non, Nanw Branwen, a Gracie Mai a brawd hoffus i Gwyneth a'i gŵr Vivs, Cerrig Llwydion. Bydd colled fawr ar ei ôl gan ei deulu a'i ffrindiau oll yn Nhregarth.

Diwedd Medi, yn Halifax, bu farw Eirwen, gwraig Don Hughes, Gerlan cynt, a mam i dri o fechgyn, Mark, John a Garry, Un o Bryncocyn, Tregarth oedd Eirwen, chwaer y diweddar Hugh (Cilcoed) a merch Owen a Gracie Owen. Roedd hi yn gyfnither i Alwena a Gwen ,Tanrhiw gynt. Ar ol priodi bu'r ddau yn byw yn Lerpwl lle roedd Don yn brifathro. Yna symud i Halifax wedi i Don gael ei apwyntio yn Arolygydd Ysgolion. Ymsefydlodd y ddau yn Ripponden.

Bu'r gwasanaeth angladdol yn Eglwys Ripponden lle roedd Eirwen yn aelod. Cydymdeimlwn a Don a'r hogia yn eu profedigaeth.

Bu farw Brenda Harris ar Fedi 16 yn dawel yng nghartref The Pines yng Nghricieth yn 96 oed.. Arferai Brenda fyw am flynyddoedd yn Bro Derfel. Roedd yn gynddarlithydd yng Ngholeg y Santes Fair ym Mangor. Cydymdeimlwn fel ardal gyda theulu Brenda.

**Merched y Wawr Tregarth**

Nos Lun 6ed o Fedi, ar ôl deunaw mis hir iawn, cafwyd cyfarfod yng Nhapel Shiloh, Tregarth. Er mwyn bod mor ddiogel a phosib bu'n rhaid cael amryw o newidiadau megis gwisgo mygydau, diheintio dwylo ayyb a rydym yn ddiolchgar iawn i aelodau Shiloh am gael defnyddio'r capel ei hyn yn hytrach na'r festri er mwyn sicrhau ymbellhau cymdeithasol ac awyru gwell.

Croesawyd pawb gan y Llywydd Myfanwy Harper a cafwyd cwis byr ond noson i groesawu aelodau yn ôl oedd hon yn bennaf, i glywed newyddion pawb ac i ddosbarthu rhaglen y tymor a copi Hydref cylchgrawn Y Wawr. O hyn ymlaen y bwriad yw cyfarfod yn Nghapel Shiloh am 7:30yh ar nos Lun cyntaf y mis gyda noson o “Steil gyda Sonia” ym mis Hydref a sgwrs am “Llechi Cymru dros y byd” gan Dr Dafydd Roberts ym mis Tachwedd. Croeso i gyn-aelodau a rhai newydd.

**Capel Shiloh**

Dyma'r gwasanaethau yn Shiloh yn ystod yr wythnosau nesa i gyd am 5 o'r gloch. Croeso cynnes i bawb.

Hydref 24 – Richard O Jones, Gaerwen
Hydref 31 – Ffion Rowlinson
Tachwedd 7 – Richard Gillion
Tachwedd 21 – Oedfa i'w threfnu
Tachwedd 21 – Richard Gillion
Tachwedd 28 – Eric Jones, Bangor
Rhagfyr 5 – Richard Gillion
Rhagfyr 12 – Dafydd Coetmor Williams. Llanllechid
Rhagfyr 19 – Oedfa Deulu y Nadolig

# Llinos y Mynydd

Aderyn sy'n nythu ar draws gogledd Ewrop a chanolbarth Asia yw Llinos y Mynydd.

Yng Nghymru, mae nifer fach o Linosiaid y Mynydd yn nythu yn Eryri, ond dros sawl degawd mae'r niferoedd wedi gostwng yn sylweddol.

Serch hynny, mae ymdrechion yn parhau i warchod yr aderyn prin a'i gynefin, gan gynnwys gosod modrwyau lliw ar yr adar er mwyn ymgyfarwyddo â'u patrwm symud.

Mae Nant Ffrancon yn un o gynefinoedd Llinos y Mynydd, ac mae RSPB Cymru, ffermwyr lleol a'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol yng Nghymru yn cydweithio ar brosiect i warchod y cynefin hwn ar gyfer yr adar. Os bydd newidiadau anffafriol i'r cynefin, bydd yr adar yn cilio a bydd hi'n eithriadol o anodd eu denu'n ôl wedyn.

Dyma'r hyn sydd gan Iolo Williams i'w ddweud am yr aderyn hwn yn *Llyfr Adar Iolo Williams – Cymru ac Ewrop*:

“Llinos fechan, ddisylw sy'n heidio ar y ddaear neu mewn tyfiant isel. Ceir stribynnau tywyll ar ei chorff melynfrown. Mae'r llinell hufen ar hyd yr aden fel eiddo'r Llinos Bengoch (*Mealy Redpole*); mae'r stribynnau gwyn ar y gynffon a'r adenydd fel eiddo'r Llinos (*Linnet*). Mae crwmp pinc a phig lwyd gan y ceiliog; yn y gaeaf, ceir llai o blu pinc. Does dim plu pinc ar grwmp yr iâr ac mae ei phig yn felyn. Dim marciau ar y gwddf melynfrown. Ychydig sy'n ymweld â Chymru yn y gaeaf a nifer fechan sy'n nythu yn ucheldir y gogledd.”

Dymunwn yn dda i brosiect gwarchod cynefin Llinos y Mynydd. Clywsom fod y wiwer goch a bela'r coed wedi eu hail-gyflwyno yng nghoedydd ein dyffryn, a gobeithio'n fawr y bydd y creaduriaid hyn yn ffynnu eto yn y fro ac yn cyfoethogi ei bywyd gwyllt. Mae diogelu byd natur a'i fioamrywiaeth yn hanfodol.



Y ceiliog efo'i big lwyd a phlu pinc ar ei grwmp



Yr iâr efo'r phig felen



# CHWILAIR



CHWILAIR HYDREF

## Anifeiliaid Gwyllt

| | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I | K | C | M | J | M | A | R | T | H | B | E | Z | O | L | X | V | P | K | H |
| V | P | H | W | Q | W | G | Q | B | M | V | W | F | Z | R | S | G | X | G | M |
| J | V | P | L | N | A | K | F | M | N | G | O | P | I | O | T | S | E | Y | L |
| S | O | O | L | N | I | B | L | A | I | D | D | T | X | O | P | V | L | A | Y |
| **M** | A | T | Y | X | G | N | Q | L | Y | U | B | C | J | W | F | Y | P | Z | U |
| **W** | K | A | G | A | P | U | G | M | E | N | T | Y | H | E | D | Z | D | I | E |
| **N** | K | M | O | C | J | H | H | E | B | W | H | V | G | J | R | P | B | G | K |
| **C** | B | T | D | K | A | S | N | L | N | S | A | C | G | A | N | U | Q | G | V |
| **I** | M | L | E | B | R | R | L | G | P | J | C | W | E | P | V | A | R | R | W |
| J | V | U | N | X | C | G | G | N | T | U | L | A | K | E | X | M | D | Y | Q |
| P | C | L | A | S | O | D | F | C | J | Q | D | T | L | I | O | H | S | K | C |
| S | Z | F | U | N | L | S | Z | L | A | N | N | T | G | C | P | P | X | P | U |
| I | Q | W | Y | H | G | B | J | A | Y | A | I | R | X | E | B | W | J | E | G |
| M | X | W | K | R | D | D | Q | H | F | H | F | K | O | W | V | E | T | T | R |
| E | L | J | H | G | Y | K | C | F | F | Y | G | A | W | V | A | E | N | H | Q |
| L | O | O | M | I | U | O | I | E | D | S | G | E | W | X | C | G | X | R | D |
| K | L | L | U | E | M | L | X | C | A | R | W | K | X | O | A | W | P | K | Y |
| X | P | Q | K | T | E | D | C | Z | N | Z | H | K | R | M | B | C | T | D | W |
| F | O | E | P | Q | Y | Z | G | A | G | F | Z | Y | V | D | N | H | P | N | I |
| I | U | C | R | X | B | K | X | M | K | U | C | R | W | H | D | X | V | C | G |

Yn y Chwilair mis yma mae ENW DEUDDEG ANIFAIL GWYLLT i'w darganfod, rhai o'r wlad yma ac eraill ar draws y byd. Mae un cliw wedi ei ddangos yn barod. A oes modd i chwi ddod o hyd i'r gweddill? (Mae LL, CH, DD, TH, acyb yn **un** llythyren yn y Gymraeg, ond i bwrpas y Chwilair dangosir hwynt fel dwy lythyren ar wahân). Atebion gydag enw a chyfeiriad i Andre Lomozik, Zakopane, 7 Rhos y coed, Bethesda, Bangor, Gwynedd LL57 3NW, erbyn HYDREF 27. Bydd gwobr o £10 i'r enw cyntaf allan o'r het. Os na fydd unrhyw un wedi canfod y deuddeg, yna'r rhif agosaf fydd yn cael y wobr.

Diolch i dri newydd am roi cynnig ar y Chwilair, sef Siôn Freeman, Enoc Williams, a Sandra Howell. Er na chawsoch hyd i'r holl atebion y tro yma, braf oedd cael derbyn eich cynnigion.

**DYMA ATEBION CHWILAIR MEDI.**

Aberffraw; Bodewryd; Cerrigceinwen; Gwredog; Heneglwys; Llandyfrydog; Llanfachraeth; Llangefni; Penmon; Penrhosllugwy; Rhoscolyn; a Tregaean. **Dyma enwau'r rhai a gafodd yr atebion cywir.** Wendy Eccles, Llanllechid; Elizabeth Buckley, Tregarth; Doris Shaw, Bangor. **Enillydd Medi oedd:-** Doris Shaw, 26, Llwyn Hudol, Bangor LL57 1SG.

# Nyth y Gân

**DYN Â BATOG**

(Paentiad gan Jean-François Millet)

Ei wyneb ddeil yr union ôl llafur
Fu'n llifo yn gyson;
Crafu â'i ddwylo cryfion
Ar y tir yn hir â hon.



**Y CREIGIWR**
Roedd sŵn eu 'sgidiau hoelion mawr
Yn taro llawr y dyffryn,
Ac ar eu ffordd yr oeddynt hwy
I dynnu mwy o'r clogwyn.

Yn llafnau ifanc ond deg oed
Ar lwybr troed mor fore
I gael eu bwyd trwy ddyfal donc
Ar lawer ponc y creigle.

Yn hwyrach buont rwym wrth graig
Am syml saig mewn angen
Yn tynnu clytiau trwm i'r llawr,
Rhai bach a mawr o'r fargen.

Mae'n dawel heddiw lle bu gwaith
Ac ymdrech faith y creigiwr;
Ar wifren wib ar draws y twll
Ond pwll a wêl y gwibiwr.

**LLUN O GELFI'R CREIGIWR**
Daw â bywyd i'r ystafell
'R ôl ei hongian ar y mur;
Ynddo gwelwn ni y celfi
Wnaed o bren a chaled ddur.

Eu perchnogion oedd chwarelwyr
Weithiai'n ddygn efo'r rhain
Dan y clogwyn gyda'u dwylo
I droi'r creigiau'n glytiau main.

Y rhai dewrion gawsai dasgau
Gan ddibynnu ar y rhaff
Fyddai'n cael ei gosod yno
O dan lygaid rhai mor graff.


Treulio wnaeth y celfi cynnar
Ac mae newid mawr fan hyn;
O dan rwbel mae y ponciau.
A'r bargeinion dan ddŵr llyn.

**Dafydd Morris**

**PLAS OGWEN**
Un gaer yn llawn o gariad – a meini
Amynedd ei gwead;
Mae gofal i bob galwad
Gan gwmni sy'n gloywi'n gwlad.

**Dilwyn Owen**


SIOP OGWEN
yn cynnig gwasanaeth
CLIC A CHASGLU
Llawer o Nwyddau Newydd
gan Grefftwyr Newydd
wedi cyrraedd y siop
Hefyd
Llu o gardiau cyfarch
ar gyfer pob achlysur.
Cysylltwch â'r siop ar
yffôn 07394 905881
neu E-bost siop@ogwen.org
i drafod beth sydd ar gael ac i
wneud trefniadau casglu a thalu
CEFNOGWCH WASANAETH LLEOL



Llais Ogwan
I hysbysebu yn
Llais Ogwan,
Neville Hughes
600853

Oes gennych chi ddiddordeb i hysbysebu yn Llais Ogwan?
Cysylltwch â Neville Hughes (Ffôn 600853)
nev_hughes @btinternet.com

CANOLFAN CEFNFAES
BORE COFFI
EISTEDDFOD DYFFRYN OGWEN
Sadwrn, 23 Hydref
10.00 – 12.00
Mynediad : £1.00

JAMIAU CARTRA'
(Amrywiaeth ar gael)



Cysylltwch â gwefan
CADWYN OGWEN
neu Neville ac Angharad
(ffoniwch nhw ar 600853)
Elw at Elusennau

## Ysgol Llanllechid

**Croeso nôl**
Erbyn hyn, mae pawb wedi setlo'n dda, ac mae ein dosbarth Meithrin yn ddigon o sioe! Rydym hefyd yn estyn croeso cynnes i Ms Elin Beardsmore, athrawes dosbarth Derbyn, sydd hefyd wedi ymgartrefu hefo ni, yn ein Cyfnod Sylfaen.

**Gwellhad Buan**
Dymunwn wellhad buan i Ms Rhian Haf a Ms Thelma Jones. Gobeithio y byddwch eich dwy yn teimlo'n well yn fuan.

**Ymddeoliad Hapus**
Ar ddiwedd tymor yr Haf, cafwyd cyfle i ddiolch yn ddiffuant i Mrs Marian Jones am ei holl wasanaeth (ers Medi 1998) i Ysgol Llanllechid. Cafodd yr holl ddisgyblion, a fu o dan ei hadain, addysg o'r radd flaenaf, ac roedd Mrs Marian Jones yn gallu troi ei llaw at nifer o feysydd, ond heb os, roedd hanes a hanes yr ardal leol, yn un o'i chryfderau amlwg. Gweithiodd yn ddi-flino i sicrhau fod gan y disgyblion wybodaeth drylwyr o'u treftadaeth, gan ddod a straeon o'r gorffennol yn fyw drwy ddrama, cyflwyniad a chân. Dysgodd gannoedd o ddisgyblion am hynt a helynt cymeriadau fel 'Robat Jôs Gwich, Elin Horn, Madam Chips ac ati, ac roedd y cymeriadau yma'n dod yn fyw ym mywydau'r plant. Cofiwn hefyd am ei dawn fel awdures, a bu i blant yr ysgol hon elwa o'i deunyddiau darllen e.e Llyfrau Ceri a Huw. Cafwyd cyfle i anrhegu Mrs Marian Jones ar ddydd Gwener olaf tymor yn Haf, pan oedd yr haul yn danbaid. Llwyddwyd i drawsnewid buarth yr ysgol yn fan addas ar gyfer y seremoni, a daeth Mr Walter Williams, Cadeirydd y Llywodraethwyr, i gynrychioli'r aelodau. Cafwyd seremoni i'w chofio, a darllenwyd englyn gan y Prifardd Ieuan Wyn:

**I Marian**
Anwylaf ei gofalaeth, - a hynod
Ei dawnus wasnaeth;
O lwyfan Marian doi maeth
Addysg ein hetifeddiaeth.

Anrhegwyd Marian Jones gyda darn o grefft a wnaethpwyd



gan Rhiannon Gwyn, un o'n cyn ddisgyblion talentog. Dymuniadau da i'r dyfodol am ymddeoliad hir a hapus i ti Marian, oddi wrthym i gyd yn Ysgol Llanllechid.

**Cestyll**
I Aberlleiniog a Beaumaris aeth dosbarthiadau Mrs Llinos Wilson, Mr Sion Llywelyn a Mrs Nerys Tegid, i astudio'r hen greiriau hyn, a chael cyfle i gerdded ar y traeth, a rhyfeddu at ogoniant mynyddoedd Eryri.

**Blodau Haul**
Ar ddechrau'r tymor yma, roedd plant bach dosbarth Derbyn wrth eu boddau yn cael cyfle i gerdded drwy gae o flodau haul yn Sir FÔn. Profiad a hanner! Cyn troi nôl am adref, bu pawb wrthi'n ddiwyd yn casglu mefus! Llawer mwy yn cael eu bwyta nag oedd yn mynd i'r bocsys bach! Ond peidiwch â dweud wrth neb! Diwrnod hyfryd, heulog, a'r rhan fwyaf yn cysgu'n sownd ar y bws ar y ffordd nôl i'r ysgol!

**Glanllyn**
Cafwyd diwedd tymor byrlymus, er gwaetha'r ffaith fod Covid yn parhau i fod o'n cwmpas. Un o'r uchafbwyntiau, bid siwr, oedd cael mynd i Glanllyn a mwynhau yr holl weithgareddau ar lan llyn Tegid.

**Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-Eang**
Er gwaetha'r ffaith fod Covid yn llyfethair llym arnom, ar ddechrau blwyddyn ysgol newydd, braint oedd croesawu ein ffrindiau o odre mynyddoedd yr Himalayas at giat yr ysgol. Bu'r disgyblion yn eu diddanu,- o bell, a threuliwyd orig ddifyr yng nghwmni ein gilydd yn dysgu gan y naill a'r llall. Braf yw nodi fod ein cysylltiadau gyda'n gefaill ysgol yn yr India yn parhau, er gwaethaf popeth.

**Mainc Ms Lliwen**
Clamp o ddiolch i Ms Lisa Roberts mam, Alena, Ayesha a Ayla am ei rhodd arbennig i gofio am wraig oedd yn annwyl iawn gan bob un ohonom, sef y ddiweddar Ms Lliwen. Mae'r holl atgofion melys yn llifo'n ôl wrth i ni ddweud ei henw. Byddwn yn mynd ati i gynnal digwyddiad yn ystod y tymor yma i goffau Ms Lliwen, ac i ddathlu ei bywyd. Yn y cyfamser, gwerthfawrogwn y fainc yn fawr, ac mae'r plant wrth eu boddau yn eistedd arni yn ein gardd. Diolch yn fawr Ms Lisa Roberts am eich caredigrwydd.





# Bowlio

## Capten llwyddiannus




Yn dilyn tymor o chwarae bowls cystadleuol ar ôl colli blwyddyn i'r Cofid-19 daeth llwyddiant arbennig i ran chwaraewyr bowls hŷn Bethesda o dan arweiniad eu capten a'u hyfforddwr talentog, Maldwyn Pritchard. O ran llwyddiannau mewn gemau, enillodd Bethesda fwy o ornestau nag unrhyw dîm arall yn y gynghrair. Yn anffodus i'r Howgets nid ennill gemau unigol sy'n mynd â hi mewn bowlio ond nifer y pwyntiau wedi eu hagregu. Felly, ail i dîm Biwmares oedd y tîm o Ddyffryn Ogwen.

Chwaraeodd y 9 tîm sy yn y gynghrair 16 o gemau i gyd a llwyddodd Bethesda i guro 13 gêm. Ar y llaw arall, dim ond 12 gem a gurwyd gan Biwmares ond oherwydd y drefn agregu cawsant hwy 98 pwynt ond 92 pwynt gafodd Bethesda.

Roedd Maldwyn, y capten, yn bur fodlon gyda pherfformiad ei dîm a dywedodd, " Ni sy'n haeddu bod ar frig y gynghrair ac mae'n annheg ein bod wedi ennill mwy o gemau nag unrhyw dim arall ond yn diweddu'n ail." Ychwanegodd, "Er gwaethaf y canlyniad hwnnw, rydw i'n falch fy mod wedi gallu helpu rhai aelodau o'r tîm i wella eu sgiliau."

## Hyfforddwr y Tîm Bowlio

Aeth y capten ymlaen i egluro ei fod wedi ymdrechu i alw'r tîm at ei gilydd yn rheolaidd ddwywaith neu dair yr wythnos i ymarfer ac i drafod tactegau a bod hynny wedi dwyn ffrwyth. Yn ôl John Baston, un o hoelion wyth y tîm, bu dylanwad Maldwyn yn fawr arno. "Bu Maldwyn yn gyfrwng i mi setlo i lawr yn aelod o'r tîm a dysgu sut i dderbyn llwyddiant ac ambell i siom mewn ysbryd o chwarae teg."




Roedd Fred Buckley o Dregarth yn un o'r rhai mwyaf dibynadwy yn y tîm hefyd ac meddai, "Dwi wedi chwarae bowls ers cyn geni'r rhan fwyaf o aelodau'r tîm yma, ond eleni o dan Maldwyn Pritchard yw'r tymor gorau dwi'n ei gofio. " Aeth Fred yn ei flaen i ddweud, "Dim ond un apêl sy gen i i Maldwyn a hwnnw ydy ei fod yn rhoi ychydig mwy o amser i hyfforddi'r parau, gan fod tuedd yn rhai ohonyn nhw i adael eu pelawdau lathen neu fwy'n fyr."

Ni ellir diweddu'r adroddiad heb grybwyll aelodau eraill o'r tîm a fu'n gyfrifol am y llwyddiant diamheuol hwn ac ymhlith rheiny rhaid enwi Denzil Jones a ddaeth yn ail allan o 108 o holl chwaraewyr y gynghrair. Brwydrodd Derec Gruffydd yn ddewr dan anawsterau lu i ddod a phwyntiau gwerthfawr i'r tîm a Heddwyn Morris, un y gellid dibynnu arno i ddod a newyddion da ar derfyn pob gem fel y gellid disgwyl gan bostman. Rhaid cofio am George Owen a ruthrai i fyny o Fangor ar frys mawr i ymarfer a chwarae'n gyson ond bu cyfraniad y merched, sef Wendy Thomas o Lanfairpwll, Rita Lewis o Fethesda a Gloria Williams o'r Gerlan yn werthfawr iawn hefyd. Yn wir, pe byddai angen capten yn lle Maldwyn mae Rita'n barod i sefyll yn y bwlch i lenwi ei esgidiau.

Da iawn i chwaraewyr bowls hŷn Bethesda am eu hymdrechion.




## Bowlio – Tîm P'nawn Sadwrn

Diolch i'r nefoedd! Dyna oedd ymateb yr aelodau pan ddaeth y newyddion am ail ddechrau chwarae ym mis Mehefin. Roedd 5 cynghrair i fod am eleni ac roedd y tîm lleol yn adran C sef y drydedd adran. Chwaraewyd 12 gêm i gyd a gorffennodd y tîm yn bedwerydd gan guro 6 gêm, colli 5 gêm ac un gêm gyfartal. Curodd Sion Guto 9 gêm allan o'r 12. Roedd perfformiadau Brynmor, Callum a Maldwyn yn haeddu clod a Richard am ei gyngor a'i gefnogaeth. Enillodd Catrin Griffith a Delyth Williams dair gêm yr un – ymdrech arbennig o dda yn eu tymor cyntaf mewn cynghrair cystadleuol dros ben. Da oedd gweld Gareth a Rita yn helpu yr achos. Diolch i John a'i griw am edrych ar ôl y lawnt gydol tymor anodd iawn o ran tywydd. Enillodd Sion Guto a'i bardner Gary Buckland gystadleuaeth fawr i barau yn Llanfairpwll lle roedd llawer o fowliwyr blaenllaw Cymru ymysg y 29 pâr oedd yn cystadlu. Da iawn Sion! Hoffwn ddiolch i bawb am eu cefnogaeth ar ac oddi ar y lawnt ac edrychwn ymlaen tuag at 2022 yn hyderus!

## Colli Aelod

Chwithdod mawr i aelodau'r tîm bowlio hŷn yw cofio ein bod wedi colli aelod gwerthfawr pan fu farw Emyr Peris Roberts yn ystod y tymor. Mae bwlch ar ei ól ac wrth anfon ein cofion at ei weddw a'r teulu byddwn yn cofio'n annwyl amdano.

# Chwaraeon

## Rygbi

Yn dilyn misoedd heb gemau rygbi ar gaeau Dôl Ddafydd, rhyddhad oedd cychwyn y tymor efo cystadleuaeth Plât Undeb Rygbi Cymru mewn fformat hollol wahanol.

Rhannwyd clybiau'r gogledd yn grwpiau o bedwar tîm yr un gyda phob tîm yn chwarae eu gilydd mewn cyfres o gemau cartref ac i ffwrdd.

Golygai hyn bod Tîm Cyntaf Clwb Rygbi Bethesda yn chwarae yn erbyn Pwllheli, Llangefni a Chaernarfon ddwywaith er mwyn penderfynu pwy fyddai'n mynd ymlaen i chwarae yn y rownd genedlaethol fydd yn cychwyn ym mis Ionawr 2022.

Traed moch! Yn y gêm gyntaf roedd Bethesda i fod i chwarae yn erbyn Pwllheli i ffwrdd. Oherwydd bod gem griced wedi ei threfnu ym Modegroes, gwnaed cais gan Bwllheli i newid y gêm i Fethesda a chytunwyd.

Ychydig ddyddiau cyn y gêm cafwyd cais gan Bwllheli i chwarae'r gêm efo sgrymiau goddefol - hynny ydi - dim gwthio yn y sgrym a dim cystadlu am y bêl mewn sgrymiau.

Cytunwyd - ond - ddiwrnod cyn y gêm, cafwyd neges nad oedd gan Bwllheli dîm i ymweld â Dôl Ddafydd.

Wythnos yn ddiweddarach, croesawyd Llangefni i Fethesda a llwyddwyd i ennill gêm glos o 19 pwynt i 12. Sgoriodd Gethin Harper 2 gais, Dylan Owen 1 cais a chiciodd Elis Jones 2 drosiad.

Caernarfon oedd yr ymwelwyr nesaf - tîm ifanc iawn - a llwyddwyd i ennill o 15 pwynt i 3. Sgoriodd Gethin Harper 2 gais arall a sgoriodd Nils Williams 1 cais.

Yna - gêm yn erbyn Pwllheli!

Mynnodd Pwllheli mai yno y dylid chwarae'r gêm. Dadl Bethesda oedd nad oedden nhw wedi cael gêm gartref yn erbyn y gwrthwynebwyr a chytunodd yr Undeb efo ni.

Ar Dôl Ddafydd roedd Pwllheli ar y blaen o 19 pwynt i 7 erbyn hanner amser ac roedd hogia' Pesda wedi bod yn dawel iawn. Yn yr ail hanner y tîm cartref reolodd y gêm ac enillwyd o 33 pwynt i 24. Sgorwyr ceisiau Bethesda oedd Steffan Owain, Elis Jones, Shaun Thomas, Dafydd Williams a Danial Ogwen Jones. Ciciodd Dafydd Williams 4 trosiad.

Cafwyd gêm glos i ffwrdd yn Llangefni ac roedd y sgôr yn gyfartal ar 5 pwynt yr un hyd y pum munud olaf. Dyfarnwyd gic gosb i'r tîm cartref a chollwyd y gêm o 8 bwynt i 5. Sgoriwyd cais Bethesda gan Dafydd Williams.

Yng ngêm ola'r grŵp aeth Bethesda i Gaernarfon efo tîm oedd â nifer o chwaraewyr arferol heb fod ar gael.

Y tîm cartref reolodd y rhan fwyaf o'r meddiant a'r tirwedd. Ar ôl bron i awr o'r gêm roedd y Cofis ar y blaen yn haeddiannol o 11 pwynt i ddim yn dilyn cais a 2 gôl gosb.

I'r rhai ohonoch sydd ddim wedi ymweld â chae Caernarfon, roedd Bethesda'n gorfod chwarae i fyny'r allt yn yr ail hanner. Llwyddodd y blaenwr profiadol, Dylan Owen, i sgorio cais i Fethesda ar ôl hanner awr o'r ail hanner. Ciciodd Dafydd Williams y trosiad i gau'r bwlch i 4 pwynt.

Efo ychydig o funudau yn weddill, daliodd Dafydd Williams gic ymosodol yn agos at linell gais Bethesda. Ochrgamodd heibio dau neu dri o chwaraewyr Caernarfon a rhedodd yr holl ffordd i fyny'r allt i sgorio un o'r ceisiau unigol gorau a welwyd ar y Morfa. Ciciodd Ben Williams y trosiad i sicrhau buddugoliaeth annhebygol o 14 pwynt i 11.

## Cwpan Gogledd Cymru

Bydd y gystadleuaeth yma'n cychwyn yn fuan gyda timau'r gogledd unwaith eto mewn grwpiau. Bydd Bethesda yn yr un grŵp â Llangefni a Phwllheli. 'Deja vu'!

## Cynghrair Gogledd Cymru

Bydd gemau'r gynghrair yn cychwyn ar Dachwedd 13eg. Yn wahanol i'r arfer, bydd timau Adran 1 Gogledd yn chwarae eu gilydd unwaith yr unig y tymor yma. Bydd gêm gyntaf Bethesda i ffwrdd yn erbyn Pwllheli! Bydd yr ail gêm yn erbyn Llangefni! Diolch byth - bydd Bethesda'n cyfarfod timau eraill ar ôl hynny.




Carwyn Williams



Trefor a Dylan Owen